tafod elái

Rhagfyr1998 | Pris 25c | Rhif 133

DATBLYGU GOFAL PLANT

Bu cynnydd aruthrol mewn gofal plant Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf wrth i'r Fenter laith agor dau gynllun gofal ar ôl ysgol newydd. Mae'r Fenter wedi arbenigo mewn gofal plant gan drefnu cynlluniau gofal ar adeg gwyliau'r ysgolion ar bedwar safle.

Ers dwy flynedd bu ymdrechion i agor cynlluniau gofal ar ôl ysgol. Agorwyd cynllun llwyddiannus iawn o'r enw Clwb Carco yn Ysgol Evan James ym mis Ionawr 1997 sydd wedi cynnig lle i 16 o blant bob diwrnod. Yn ystod y mis diwethaf agorwyd dau gynllun newydd sef Clwb Carco Castellau yn y Beddau a Chlwb Carco Abercynon.

Mae'r ddau glwb wedi derbyn cefnogaeth rhieni a phrifathrawon yr ysgolion ac y mae hyd at 50 o blant wedi cofrestru gyda'r clybiau yn barod.

Meddai Steffan Webb, Swyddog Datblygu'r Fenter, "Mae'n wych i weld plant yn mwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn awyrgylch ddiogel a diddorol. Mae gofal plant wedi bod yn llwyddiant mawr i ni ac rydym yn gobeithio agor hyd at bedwar cynllun arall yn ystod 1999".

Cwmni buddugol Ysgol Gyfun Plasmawr yn yr Ŵyl Ddrama eleni

GWLEDD O ŴYL

Dyna oedd disgrifiad Gillian Elisa, y beirniad, ar ôl gweld 11 o gynhyrchiadau amrywiol yn yr ŵyl eleni.

Roedd Neuadd Dowlais yn llawn i'r ymylon bob nos a'r cwmniau yn cael gwrandawiad astud gan y gynulleidfa. Cafwyd nifer o ddramau ysgafn a difrifol ac roedd cystadleuaeth y pantomeim o safon uchel iawn. Mae'n amlwg fod dyfodol disglair i nifer o actorion ifanc y cylch.

Diolch i bawb a gymerodd ran ac a gyfrannodd i lwyddiant yr ŵyl. Yn arbennig hoffem ddiolch i Colin Williams, Trefnydd yr Ŵyl, am ddod â'r gorau o dalent y fro i lwyfan Neuadd Dowlais.

Y PWDIN

Agorwyd tafarn newydd yn Llanilltud Faerdre yn ystod wythnos yr Ŵyl Ddrama. Nid yn unig yr enw sy'n anghyffredin ond mae croeso Gymraeg i'w gael y tu mewn. Ar y waliau gwelir nifer o ddywediadau Cymraeg – "Er gwaethaf pawb a phopeth ....", "Daw hyfryd fis ....", "A fo ben ....", "Mi sydd fachgen ieuanc ffol . . .". Meddai rheolwr y dafarn, James Hunt, "Penderfynodd y perchnogion greu thema newydd, a'r Pwdin yw'r cyntaf gyda blas Cymraeg yn ne Cymru". Mae'r dafarn yn cynnig bwyd, cwrw a chroeso Cymreig gyda nifer o'r staff yn siarad Cymraeg.



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Griw Tafod Elái

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
01222 890040

NEWYDDION LLEOL
Dilwen Davies 01443 223687
ERTHYGLAU
Dafydd Huws
LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
CHWARAEON
Martin Huws
01222 811413
HYSBYSEBION
David Knight 01222 891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 01222 842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
01222 890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 1af Chwefror
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
20 Ionawr 1999

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF4 8TG
Ffôn: 01222 890040

Cyhoeddir **Tafod Elái** gan
y Bwrdd Golygyddol
gyda chefnogaeth ariannol
Cyngor Celfyddydau Cymru

Argraffwyr:

Gwasg Morgannwg
Uned 27
Ystad Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn

ADNEWYDDU CLWB Y BONT

Petai celfi yn gallu siarad - aeth stôr o storis ac hanesion i ebargofiant yng nghynnwys sawl sgip a aeth o Glwb y Bont yn ddiweddar. Roedd y llifogydd diwedd Hydref wedi achosi niwed difrifol i bopeth yn yr adeilad ar lannau'r Taf.

Ond rhaid edrych ymlaen. Eisoes mae'r ddau far newydd i fyny a'r llawr newydd swanc bron a'i orffen yn y brif ystafell. Mae'r gwaith o wneud y llawr yn yr ystafell fawr wedi dechrau a chyn bo hir fe fydd hi'n bosib dawnsio eto yn y Clwb. Mae toiledau newydd yn cael eu cwblhau ac mae gwaith i'w wneud tu ôl i'r bar a'r seler hefyd. Bydd y celfi newydd yn cyrraedd cyn bo hir.

Heb haelioni ffrindiau Clwb y Bont ni fyddai wedi bod yn bosib cin cario ni dros y cyfnod di-elw hon. Bu grŵp bychan o wirfoddolwyr wrthi yn paentio dros y penwythnosau. Diolch iddynt i gyd.

DYDDIAD I'W NODI
Cyngerdd a Pharti Nadolig Côr Godre'r Garth yn y Clwb am 8 o'r gloch ar Nos Sadwrn 19 Rhagfyr.

Bydd y clwb ar agor cyn hyn gobeithio ond os ydych am flasu ysbryd y Clwb ar ei orau dewch i'r parti nos Sadwrn cyn y Nadolig.

O.N. Mae wastad angen dwylo parod arnom i osod trefn ar ôl i'r adeiladwyr orffen. Ffoniwch y Clwb - 01443 491424 ar Nos Lun os ydych ar gael o gwbl.

tafod elái

£2.50 AM Y FLWYDDYN

Tafod Elái
ar y wê
http://www.tafelai.u-net.com
e-bost
pentyrch@celtic.co.uk

PARATOI AM Y MILENIWM

Mae mudiadau di-ri yn ystyried eu cynlluniau ar gyfer dyfodiad y ganrif nesaf. Mae'n gyfle i bawb ddathlu, mae'n gyfle i bawb gael sbri ond hefyd mae'n gyfle i sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn parhau drwy'r ganrif.

Mewn adroddiadau o fyd addysg ac wrth edrych ar ddatblygiadau ym myd busnes mae'n amlwg fod twf pendant wedi bod yn y defnydd o'r Gymraeg yn yr adal hon.

Mae cyfle nawr i ddefnyddio'r iaith ar bob lefel o fywyd mewn gwaith a hamdden.

Ewch ati i ddathlu parhad yr iaith i'r mileniwm nesaf ac i fwynhau y dimensiwn ychwanegol sydd gennym yn ein bywydau.

Blwyddyn newydd dda.

CLWB Y DWRLYN

Nos Fercher, Rhagfyr 23 – Dwli'r Dolig yn y King's Arms am 8.00 yh.
Nos Wener, Ionawr 15 – Y Fari Lwyd. Mari ola'r Mileniwm!
Chwef 28, Cinio Dydd Sul Gŵyl Ddewi.
Nos Wener, Mawrth 19, Dawns y Dwrlyn gyda Ap Ted yn Neuadd Dowlais.
Manylion pellach: Ifan Roberts 01222 890493.

CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT

Rhagfyr 11. Swper yn y Summer Palace. Gŵr Gwadd Huw Llywelyn Davies
Ionawr 29ain Bowlio Deg yn yr UCI
Chwefror 26ain Swper Halyards yng Ngwesty Bae Caerdydd
Mawrth 19 Noson ar y cyd gyda Clwb y Dwrlyn. Y grŵp Ap Ted yn Neuadd Dowlais.
Mai 1af – 3ydd Taith Trên i Gaerefrog.

Manylion pellach: Bryn Roberts: 01443 208211.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

MARWOLAETH

Ar fore Dydd Mawrth 3ydd o Dachwedd daeth y newydd syfrdanol am farwolaeth annisgwyl Mrs Jean Thomas o Heol Collena a hithau ond yn 66oed. Roedd hi a ldwal ei gwr ar wyliau yn Falmouth yng Nghernyw. Jean Trefethan yr adnabyddwyd hi gan ei chydoeswyr am mae dyna oedd ei enw cyn priodi. Roedd Jean yn aelod ffyddlon yng Nghapel y Ton ac wedi cael ei chodi i fynychu'r ysgol Sul ar oedfaon, ac roedd yn gynorthwydd i drysorydd y capel. Roedd yn ddynes ddiwyd ag ar lawer o bwyllgorau fel Ymchwil Cancr a Sefyliad y Merched.

Athrawes oedd nôl ei galwedigaeth a chafodd ei haddysg yn ysgol gynradd Tonyrefail, Ysgol Ramadeg Tonyrefail fel ei gelwyd bryd hynny ag addysg bellach yng Ngholeg Y Santes Fair Bangor. Dechreuodd ei gyrfa fel athrawes yn Llundain ac yna daeth yn ôl i Donyrefail i ddysgu yn Ysgol y Babanod ac yma y bu ond am gyfnodau i roi genedigaeth i dri mab. Penodwyd hi yn Brif Athrawes gyntaf Ysgol Feithrin newydd Tonyrefail. Roedd wedi ymddeol ers tipyn bellach.

Priododd ag Idwal yntau yn un o blant ffyddlon Ainon y Bedyddwyr ac fe anwyd iddynt dri o fechgyn Rhys, Aled a Gareth. Mae Rhys yn briod a Caryl a chanddynt ddwy ferch, Megan yn Ysgol Gymraeg Tonyrefail a Rhian yn y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Llanhari.

Daeth tyrfa fawr i'r gwasanaeth angladdol a gynhaliwyd yng Nghapel y Ton. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Haydn Thomas o Gaerdydd a chafwyd gwasanaeth byth gofiadwy yn ei gwmni. Daeth tyrfa fawr ynghyd yn amlosgfa Coity i dalu'r gymwynas ola i Jean, bydd yna fwlch mawr ar ei hol ar yr aelwyd yn 81 Heol Collena ag yn y Capel a thrwy Tonyrefail.

Dymuniadau'r teulu oedd blodau'r teulu'n unig, rhodd o arian os dymunir tuag at Ymchwil Cancr drwy law Miss Marian Llewelyn, 41 Heol Waunrhydd Tonyrefail. Casglwyd dros bedwar cant punt yn barod.

EFEILLIAID.

Llongyfarchiadau mawr i Ceri a Kate Jones ar enedigaeth efeilliaid merch Poppy Mai a bachgen Noah Daniel wyr ag wyres i Walter a Shirley Jones Heol y Gilfach Tonyrefail. Mae Ceri yn gynddisgibl Ysgol Gymraeg Tonyrefail, Ysgol Gyfun Llanhari â gradd Prifysgol Abertawe. Maent yn byw ym Mhenard ger Abertawe. Mae Ceri yn Bennaeth yr adran Bywydeg yn Ysgol Gyfun Pontardulais, a Kate yn nyrsio yn Ysbyty Treforus mae hithau yn hanu o Wlad yr Haf ag yn dysgu Cymraeg ac yn dod ymlaen yn dda. Mae Walter a Shirley yn treulio llawer o amser yn gwarchod y bychain,ac maent wedi amseri'n wych ar ôl i Walter i ymddeol o'i swydd fel prif Swyddog Ysgolion yn yr Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Mae Sian merch Walter a Shirley yn byw yn Swydd Caerlyr ac yn swyddog iaith dros y sir.

O Gylch Ton.

Mae un o'n cymdogion ni yn Nhylcha-Wen sef Mr Garfield Lewis wedi bod yn sâl ers rai blynyddoedd ac wedi bod i fewn ac allan or ysbyty droeon.Dymuniadau da iddo.

Mae grwp o bobl wedi dychwelyd ar ôl taith i Israel a oedd wedi ei threfni gan y ficer Parchedig Earl Hastey, ac hefyd roedd yr esgob yn y cwmni. Roedd pawb yn falch o'i gweld yn ôl yn ddiogel yng ngolwg y terfysg sydd yn bod yn y rhan yna o'r byd.

Cynhaliodd pwyllgor Ymchwil Cancr fore gofli yng nghapel Salem Heol Y Gilfach ar yr 20fed o Dachwedd. Casglwyd swm sylweddol tuag at yr achos.

siop y Bont

MARCHNAD PONTYPRIDD

Dewch i weld Maldwyn ac Ann am ddewis o Gasetiau,Cryno-Ddisgiau a Fideos Cymreig.
Mae llyfrau ar gael i blant ac oedolion ac os nad ydynt gennym ni, gallwn eu harchebu.

Ar werth hefyd mae llestri ffein a phridd,gwaith glo a gwaith llechi yn ogystal a nifer o bethau eraill.

Dewch i'n gweld ni unrhyw bryd
o Ddydd Mawrth i Ddydd Sadwrn.
Ffôn: 07970 693339

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

SUL Y COFIO

Daeth llawer ynghyd ar Sul y Cofio wrth y gofgolofn yn y parc (sef y cloc) i gofio 80 mlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd cyntaf. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parch Brian Hodges a Henry Haye Tonyrefail. Ar derfyn y gwasanaeth gosodwyd nifer o dorchau ar y cofgolofn gan fudiadau, unigolion a theuluoedd o'r cwm i gofio am yr anwyliaid na ddaeth nol.

MARWOLAETH

Roedd yn drist clywed am farwolaeth preswylydd hynaf y cwm sef Mrs Fran Allan, Llewelyn Street . Roedd Mrs Allan yn 102 oed. Bydd ei theulu a phawb yn y cwm yn gweld ei heisiau am amser i ddod.

Daeth tristwch mawr dros y cwm hefyd wrth glywed am farwolaeth Ian Ham, Pen-y-bryn ac yntau ond yn 30 mlwydd oed. Roedd Ian yn dioddef o 'Cystic Fibrosis' a bu'n sâl ers yn faban. Ymladdodd yr afiechyd yn ddewr ar hyd ei oes a threuliodd gyfnodau yn ysbyty Llandochau. Pedair blynedd yn ôl derbyniodd drawsblaniad calon ac ysgyfaint yn ysbyty Papworth. Cafodd adferiad iechyd a mwynhaodd y pedair blynedd diwethaf yn fawr iawn. Yn ddiweddar aeth yn sâl unwaith eto ond bu farw yn ysbyty Llandochau yn disgwyl am drawsblaniad arall. Er iddo farw mae ei deulu yn falch fod ei galon yn fyw o hyd yn Ken Lee y dyn a dderbyniodd ei galon pan gafodd trawsblaniad Calon ac Ysgyfaint yn Papworth.Hu'r Gwasanaeth Angladdol yn Eglwys Dewi Sant Tonyrefail Cydymdeimlwn â'i fam Nansi a'i frawd Aarran yn eu profedigaeth.

ACHOS DA

Bu merched y Dosbarth gwnïo sy'n cyfarfod bob nos Fawrth wrthi'n ddiweddar yn gweu bathodynau ' Sion Corn' i'w gwerthu er lles Ysbyty Felindre. Mae'r merched yn barod bob amser i helpu achosion da. Llynedd buont wrthi yn gweu dros 500 o gywion Pasg i Felindre.

PERERINDOD

Bu rhai o aelodau Eglwys Sant Barnabas ar bererindod i Israel gyda eglwysi Tonyrefail. Arweinydd y daith oedd y Ficer y Tad Erle Hastey. Treuliwyd pedwar diwrnod yn Tiberius ar lan mor Galilea yn ymweld â mannau y sonnir amdanynt yn y Beibl a phedwar diwrnod yn Jeriwsalem yn ymweld â lleoedd cysegredig. Mae'n siwr y cafodd pawb fendith ar y daith.

Roedd hi'n drist i ddeall y bydd y curad y Tad Glynne Ball yn ein gadael ar ôl y Nadolig i fynd i ddyffryn Teifi. Dymunwn yn dda iddo yn ei blwyfi newydd.

TRYDANWR

gyda dros 30 mlynedd o brofiad

Prisoedd rhesymol am ailweirio, gosod cawodydd a systemau larwm.

Ffoniwch Caerwyn Davies ar 01222 868208 neu 0468 973229

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

CROESO GEORGE!

Dyma fe - George! Mab bach Kate a Howard, a aned ar y 30ain o Fedi, 1998 - yn pwyso 5 pwys 4 owns. Pob bendith i'r tri ohonynt, a llongyfarchiadau felly i Enid a Brian Davies, Beili Glas, Heol Pantygored, sydd bellach yn famgu a datcu i George. Mae Kate a Howard wedi ymgartrefu yn Nottingham - Kate yn athrawes mewn ysgol i blant ag anabledd a Howard yn gerddor sy'n arbenigo yn y clarinét a'r sacsoffon.

MA'R BOI'N ATHRYLITH!

Llongyfarchion hefyd i Lyn Morgan, 4 Llys Gwynno ar ennill gradd M.B.A. yn diweddar. Aeth llawer o chwys a llafur i mewn i'r ymdrech lew hon - fel y tystia ei deulu oll! Ond mae pawb yn falch iawn o'i lwyddiant. Gweithia Lyn yn y B.B.C. yn Llandaf. Mae'n ddirprwy reolwr Gwasanaethau Darlledu, BBC Cymru.

Y DOC WEDI DYWEDDIO

Ein dymuniadau gorau i'r Dr Owain Thomas, Parc Castell y Mynach, a Ruth Japp, ar eu dyweddiad. Ar hyn o bryd mae Owain yn feddyg yn Adran Casualty, Ysbyty Tywysoges Cymru, Penybont, a Ruth yn fydwraig yn Ysbyty Llandochau. Cyfuniad perffaith!

Dim ond gobeithio bod Ruth yn mwynhau golchi crysau rygbi!

YR ŴYL FFILMIAU

Cafodd yr Ŵyl Ffilmiau gartref newydd yn y brifddinas eleni - a does dim dwywaith na fu'n lwyddiant mawr. Dangoswyd tair ffilm Gymraeg - 'Lois', 'Porc Pei', a 'Solomon a Gaenor' a'r hyn sy'n ddiddorol iawn yw cysylltiad teulu'r Ellis Owens â'r tair ohonynt.

Cymerodd Bethan ran yn y ffilm 'Lois' a gynhyrchwyd gan Ffilmiau Eryri, ac hefyd yn y ffilm gwnaed gefn-wrth-gefn Cymraeg / Saesneg 'Solomon a Gaenor'.

Wynford, ei thad, sgriptiodd y ffilm 'Porc Pei' ac Arwel, Cwmni Cambrensis oedd yr uwch-gynhyrchydd.

Tipyn o gamp!

YSGOL GYMRAEG TONYREFAIL

Rhian Lewis Bl 6 yn dal cryr-dylluan

HYDREF PRYSUR

Bu'n hanner tymor eithriadol o brysur gyda nifer helaeth o ddigwyddiadau fel y gwelwch.

STAFF NEWYDD

Rhown groeso cynnes i ddau aelod o staff addysgu newydd - sef Mr Emyr John sy'n dysgu Blwyddyn 3, a Miss Luned Huws, athrawes Blwyddyn 2. Hefyd, daeth Mrs Emma Llewellyn yn ôl atom fel cymorth i'r athrawon ar ôl cyfnod adref yn magu'r plant. Balch ydym hefyd fod Mr Alan Fussell wedi cymryd swydd fel gofalwr amser-llawn.

PROFIAD GWAITH

Bu dwy o ddisgyblion Bl 11 Ysgol Gyfun Llanhari ar brofiad gwaith gyda ni o'r 5ed hyd at y 9ed o Hydref. Bu Kathleen Jones yn helpu gyda'r plant Meithrin a Catrin Jones gyda'r disgyblion derbyn.

MYFYRWYR

Da oedd cael cwmni Ceri-Ann Richards, un o gyn-ddisgyblion yr Ysgol ac Ysgol Gyfun Llanhari sydd wedi dechrau ym Mhrifysgol Cymru Bangor, am wythnos o brofiad gwaith o'r 12fed hyd at 16eg Hydref.

Hefyd cawsom ymweliad gan Rhianydd Dutfield a Lindsey Morgan o Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd am ddiwrnod o brofiad ar 12fed Hydref. Byddant yn dychwelyd atom yn ddiweddarach yn y tymor.

YMWELIADAU

Cafodd y Babanod a'r plant hŷn lawer o fwynhad wrth glywed am bob math o adar ysglyfaethus gan Ganolfan Adar Ysglyfaethus Cymru ar 23ain Medi. Cafodd nifer o'r plant gyfle i gydio yn rhai o'r adar hefyd.

Daeth sioe ddiogelwch y ffordd "Abracadabra" i ymweld â'r ysgol ar 1af Hydref a chwmni SWALEC i drafod peryglon trydan ar 16eg Hydref.

Aeth plant dosbarth Blwyddyn 3 ar ymweliad i'r Pentref Celtaidd yn Sain Ffagan ar 7ed Hydref yng nghwmni eu hathro Mr John a Miss Downes a Mrs Parsons.

YR URDD

Bu Clwb yr Urdd yn cwrdd yn bythefnosol a threfnwyd ystod o weithgareddau ar gyfer yr aelodau o'r Adran Iau - Gyrfa Mistar Urdd, Parasiwt gyda Mr Rhodri Francis, a nofio yn y pwll lleol.

Aeth 36 o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 am benwythnos o weithgareddau cyffrous i Langrannog ynghyd â Mrs Preece, Mr Lloyd, Miss Huws a Mr John, o'r 25ain - 27ain Medi.

Mwynhaodd tua hanner cant o aelodau eu parti Calan Gaeaf ar 28ain Hydref.

CYMDEITHAS RIENI, ATHRAWON A CHYFEILLION YR YSGOL

Trefnwyd nifer helaeth o weithgareddau gan y Gymdeithas yn ystod y tymor gan gynnwys Sioe Ffasiynnau ar 10fed Medi, Helfa Drysor a Barbeciw ar 20fed Medi, Parti Siocled ar 5ed Hydref. Roedd Disgo Calan Gaeaf i'r disgyblion yn y Clwb Rygbi yn Nhonyrefail ar 30ain Hydref a Trip Siopa Nadolig i Cheltenham ar 21ain Tachwedd a Ffair Nadolig ar brynhawn Gwener 27ain Tachwedd. Mae'r bore coffi ar fore Gwener yn parhau i ddenu nifer o'n rhieni.

Trefnwyd cynnal cyfarfod blynyddol y Gymdeithas i ethol swyddogion a phwyllgor ar gyfer 1999 ar nos Fercher 9ed o Ragfyr.

GWASANAETH CYNHAEAF

Daeth Mrs Elenid Jones o Gymorth Cristnogol i annerch y plant ar 28ain Hydref. Cafwyd anrhegion o ffrwythau gan y Babanod i'w dosbarthu i henoed y cylch ac fe gasglwyd ar gyfer Cymorth Cristnogol ymysg y plant hŷn.

ADLONIANT I'R HENOED

Aeth Blwyddyn 1 a 2 i'r Ganolfan Ddydd y tu ôl i'r Ysgol i ganu ac i roi anrhegion o ffrwythau ar 28ain Hydref, ac fe aeth Blwyddyn 6 i berfformio'u drama am yr Ail Ryfel Byd ar 9fed o Dachwedd. Caiff y plant groeso cynnes iawn bob tro y byddant yn ymweld. Bu Blwyddyn 1 a 2 yn ymweld a'u gwasanaethau ar 20fed o Dachwedd.

PONTYPRIDD

Gohebwyr Lleol:
Delyth Jones a Jayne Rees

Newyddion
Ysgol Pont Siôn Norton

Apêl Eryri
Croesawyd Huw Hughes o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i'r ysgol diwedd Hydref i dderbyn siec ar gyfer Cronfa Apêl Eryri.

Llieiniau Sychu Llestri
Bu plant yr ysgol yn brysur yn cynllunio llieiniau sychu llestri. Cynlluniwyd un gan adran y babanod a'r llall gan yr adran iau. Mae'r llieiniau'n cynnwys hunan bortread o bob disgybl sydd yn yr ysgol. Bu'r gwerthiant yn llwyddiannus dros ben.

Bocs o Gariad
Bu'r plant wrthi'n brysur yn llanw bocsys 'sgidiau â phethau defnyddiol i gyflwyno i blant sy'n byw yn rhai o'r gwledydd tlotaf yn y byd. Bu'r ymateb yn aruthrol, ac roedd hwn yn gyfle i'r plant fod yn ymwybodol ac i gofio am blant sy'n llai ffodus na nhw eu hunain.

Ffarwel a Chroeso
Ar ddiwedd y tymor byddwn yn ffarwelio â Mrs. Delyth Brown am gyfnod. Dymuniadau gorau iddi hi yn ystod ei chyfnod mamolaeth. Croeso i Mr. Iolo Dafydd fydd yn ymuno â staff yr ysgol dros dro yn ystod cyfnod mamolaeth Mrs. Brown.

Croeso hefyd i Maria, ein hathrawes newydd Eidaleg. Mae Maria yn dysgu Eidaleg i'r plant yn ysgolion Pont Siôn Norton ac Evan James.

Chwaraeon
Llongyfarchiadau i Chris Mitchell, blwyddyn 5, sydd wedi ei ddewis i chwarae pêl-droed dros Gymru dan 11 oed.

Canlyniadau
Rygbi :
Rownd 1 (Cwpan) Pont Siôn Norton 30 - Trehopcyn 0
Gêm gyfeillgar Pont Siôn Norton 40 - Trerobart 5

Mrs Brenda Jones

Pêl-rwyd :
Trefforest 16 - Pont Siôn Norton 4

Digwyddiadau
Rhagfyr 2 Ffair Nadolig yn yr ysgol am 6 o'r gloch
Rhagfyr 6ed Trip siopa i Cribbs Causeway, Bryste
Rhagfyr 8fed Sioe Babanod - 'Joio' yn Ysgol Gyfun Coed y Lan am 6.30
Rhagfyr 9fed/10fed Adran Iau yn perfformio 'Oliver' yn Ysgol Gyfun Coed y Lan am 6.00
Rhagfyr 16eg Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Coed Pen Maen
Rhagfyr 17eg Canu Carolau yn Ysbyty'r Bwthyn

Cryno Ddisg Mega
Daeth Rib (Rhydian), o'r grwp Mega, i'r ysgol i arwyddo copïau o'r gryno ddisg newydd 'Mwy Na Mawr'. Hon yw'r gryno ddisg sain gyntaf yn y Gymraeg i gynnwys elfen aml-gyfrwng sef cyflwyniad fideo o'r gân 'Dawnsio ar ochr y dibyn'. Os ydych awydd prynu copi o'r gryno ddisg, cysylltwch ag Alun Williams (rhif ffôn 0374 747466). Dyma'r unig le ym Mhontypridd lle gallwch ei phrynu.

Penblwydd Hapus
Llongyfarchiadau i Sara Mair, Bronwydd, Ffordd Tyfica, ar ddathlu ei phenblwydd yn 18 oed.

YSGOL EVAN JAMES

Aeth dosbarthiadau 12, 13 a 14 i Ganolfan Hamdden y Pîl i weld perfformiad o "Codi Stêm" gan Theatr Gorllewin Morgannwg.

TRO DA
Yn ystod ein gwasanaeth Cynhaeaf eleni casglwyd tuag at yr elusen Cymdeithas Atal Creulondeb i Blant.

Ar ddiwrnod "Plant Mewn Angen" gwisgodd y plant eu dillad eu hunain tra bu'r staff yn edrych yn hynod o ddeniadol mewn gwisgoedd ysgol amrywiol iawn!

Codwyd £220 at yr achos.

YMDDEOLIAD
Trist iawn yw ffarwelio â'n cynorthwywraig meithrin, Mrs Brenda Jones, Tonteg. Yn gyn-ddisgybl a chyn-weithiwr ym Mhont Sion Norton, Brenda yw un o aelodau gwreiddiol staff Evan James.

Ymddeolodd ei gwr, Robert, yn yr haf - felly dyma gyfle i'r ddau ohonynt joio - 'sgwn i os oes "cruise" arall ar y gorwel?

Dymuna'r plant, staff a rhieni ymddeoliad hapus iawn iddi gan ddiolch am bopeth yn ystod y deuddeg mlynedd diwethaf yn yr ysgol.

PENDROFFOBIA
Aeth Blwyddyn 6 i stiwdios HTV, Croes Cwrlwys i ffilmio ar gyfer rhaglen blant Pendroffobia. Roeddynt yn cystadlu yn erbyn plant Ysgol Bro Eirwg, Caerdydd. Bydd yn rhaid i chi aros tan y darllediad i wybod y canlyniad! Mr Ioan Thomas oedd yr aelod ffodus o'r staff i wirfoddoli i fynd ar y rhaglen gyda'r plant!

YMWELIAD
Daeth Martyn Geraint i ddifyrru plant lleiaf yr ysgol fore Sadwrn, 21 o Dachwedd. Trefnwyd yr achlysur gan Gymdeithas Rieni ac Athrawon yr ysgol.

DATHLIADAU'R NADOLIG
Cynhelir Ffair Nadolig yn Neuadd yr ysgol, nos Iau, Rhagfyr 3ydd. Nos Fawrth, Rhagfyr 15ed bydd blynyddoedd 1 i 6 yn cynnal Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Sardis, Pontypridd.

Bydd dosbarthiadau'r feithrin a derbyn yn cadw cyngherddau yn yr ysgol yn ystod yr un wythnos.

TRIP YR URDD I ASTON VILLA

Ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 7 fe aeth dros 40 o aelodau'r Urdd (blynyddoedd 7, 8 & 9) i weld arweinwyr y 'Premiership',Aston Villa yn chwarae yn erbyn Tottenham Hotspur. Roedd yr awyrgylch yn y gêm yn wych gan bod yna dros 40,000 ym Mharc Villa. Roedd Aston Villa yn edrych i gyfnerthu ei safle yn y gynghrair a Tottenham yn edrych i adfywio'i hunain yn dilyn apwyntiad George Graham fel rheolwr.

Roedd yr hanner cyntaf yn llawn cyffro ac fe lwyddodd Dion Dublin i sgorio 2 gôl yn ei gem gyntaf i Aston Villa. Sacthwyd Spurs fel bwled! Yna yn gynnar yn yr ail hanner fe sgoriodd Stan Collymore o gic rhydd i'w wneud yn 3-0. Er hynny, fe frwydrodd Spurs yn ôl i'w wneud yn 3-2. David Ginola yn sgorio o'r smotyn a'r cilydd Ramon Vega yn sgorio o gic cornel. Roeddynt wedi llwyddo i wneud y sgôr i edrych yn fwy parchus ond erbyn iddynt sgorio'r ail gol, roedd yn llawer rhy hwyr iddynt sgorio trydydd gôl.

Roedd pawb wedi mwynhau y gêm yn fawr iawn ac fe fydd yr Urdd yn trefnu mwy o wibdeithiau pêl droed yn y dyfodol agos. Hoffai'r Urdd ddiolch i Eurof James, Carly Mason a Max Roberts am gynorthwyo staff yr Urdd ar y diwrnod.

Rhodri Francis
URDD GOBAITH CYMRU

Criw'r Urdd yn Aston Villa

Mwynhau yn Cadbury's World

PONTYPRIDD

SYMUD TŶ

Bydd Dilys Davies yn symud yn y dyfodol agos. Pob dymuniad iddi yn ei chartref newydd ym Maes y Deri, Graigwen.

Croeso i Rhuanedd Richards - gwyneb cyfarwydd ar raglenni newyddion S4C sy'n symud o Abertawe i fyw ym Merw Road, Pontypridd.

PENBLWYDD

Dymuniadau gorau a phenblwydd hapus yn ddeunaw oed i Gareth Evans, Lanwood Road a Sara Mair Raby, Tyfica Road.

GIG DOLIG 98 YR URDD

Baby Oil Rig, Angharad Bizby a'r Band, Serephona, Incarnadine
Dydd Gwener 18 Rhagfyr
7.30pm – 11.30pm
Clwb y Great Western, Trehopcyn

Tocynnau £3 (aelodau) £4 a £5 (ar y drws)
Ffoniwch 01222 236201

HYSBYSEB AM SWYDD

Mae'r Urdd yn chwilio am rhywun brwdfrydig i fod yn arweinydd/arweinwraig clwb ieuenctid ym Mhontypridd pob nos Fercher
CYFLOG I'W DRAFOD
Os oes diddordeb gennych cysylltwch a Rhodri yng Nghanolfan yr Urdd ar (01222) 236201.

MENTER laith

ar waith yn Rhondda Cynon Taf
Tŷ Model, Llantrisant
01443 226386

EGNI'R ŴYL

Er nad oeddwn wedi cael cyfle i weld llawer o'r ŵyl ddrama eleni mae'r ysbryd a'r hwyl yn ddigon i danio'r dychymyg a gwneud ysgrifennu i Tafod Elái yn fraint yn hytrach nac yn waith. Mae gallu ac egni anhygoel i gael ymhlith y perfformwyr – hen ac ifanc – a'r trefnwyr i gyd gan gynnwys darparwyr y cacenni a'r te a choffi a gafwyd bob nos!

SWYDDOG NEWYDD

Braf hefyd ydy cael gweld dechrau gwaith ein Swyddog Datblygu Gwirfoddoli sydd eisoes wedi gweld lle i wirfoddolwyr Cymraeg o fewn yr ardal, ac wedi derbyn ceisiadau am help i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg gan fudiadau gwirfoddol Saesneg yr ardal, a dechrau trefnu cyfarfod Fforwm Mudiadau Cymraeg Rhondda Cynon Taf a dechrau changu dwyieithrwydd Interlink a wnaeth gyhoeddi eu hadroddiad blynyddol yn ddwyieithog am y tro cyntaf eleni. Hyn i gyd o fewn tair wythnos! Beth wnaiff hi o fewn tair blynedd?

Colled serch hynny ydy gweld Glenys Jones, ein Swyddog Gofal Plant, yn ymuno â Chwarae Teg ond braf ydy deall bod mwy o Gymraeg yn cael ei siarad yn y fan honno nawr hefyd. Rydym yn hysbysebu am Swyddog Newydd a fydd yn gallu fy helpu gyda holl waith y Fenter – gan fod angen help arnaf – ac rydym yn ymdrechu i ddatrys ein problemau staffio wrth sicrhau cyllid newydd o ffynonellau newydd sef nid Bwrdd yr laith. Er tegwch i'r Bwrdd y maent yn derbyn llu o geisiadau o bob ardal yng Nghymru am arian i ddatblygu mentrau iaith newydd oherwydd ein llwyddiant ni a Menter Cwm Gwendraeth ac Aman Tawe.

Mae ein rhestr siopa gyfredol yn cynnwys Swyddog Gofal Plant penodol gyda chyllid digonol, Swyddog Addysg Gymunedol i ddatblygu cyrsiau cyfrwng Cymraeg, Swyddog Celf a Chwaraeon i ddatblygu gweithgareddau angenrheidiol a llu o swyddogion ieuenctid i wasanaethau'r 25% o blant sydd yn derbyn addysg Gymraeg. Rydym yn ymdrechu i sicrhau'r staff yma nawr. Fe all y staff hyn fod yn gweithio o'n swyddfeydd ni, ac os felly bydd angen staff clerigol arnom, neu o swyddfeydd partneriaid newydd fel y mae Eleri yn gweithio o swyddfa Interlink. Mae manteision i'r ddwy ffordd ymlaen ond efallai fod yr ail ffordd yn well i sicrhau gwell lledaeniad o'r Gymraeg trwy'r gymuned a phob swyddfa yn yr ardal.

Gan fod goblygiadau ariannol i hyn i gyd dylwn ddiolch i Dr Guto Roberts a'i dim o weithwyr am eu gwaith cyson yn codi arian ers dechrau'r Fenter – yn wir ni fyddai Menter hebddyn nhw o gwbl! Mae nhw'n chwilio am helpwyr newydd yn enwedig yn ardal Pontypridd ac yn y Rhondda a Chynon felly os ydych chi'n gallu gwneud noson o waith unwaith y mis i helpu'r Fenter yn ariannol rhowch alwad.

CYNLLUNIAU GOFAL

Mae ein gwaith yn tyfu o hyd! Yn ogystal ag agor dau gynllun gofal ar ôl ysgol newydd sbon Clybiau Carco Abercynon a Chastellau, Beddau, sydd yn llwyddiannus iawn ac wedi tynnu sylw'r rhaglen Heno yn ddiweddar fel y mae Clwb Carco Evan James wedi gwneud mae cyfle gennym i agor pedwar cynllun arall. Mae cynllun busnes a chais eisoes wedi paratoi i agor Clwb Carco Heol y Celyn – rydym yn aros am ymateb Cyngor Rhondda Cynon Taf i hyn nawr – ac y mae diddordeb yn ysgolion Y Dolau, Garth Olwg, Pont SionNorton ac Ynyswen. Gwn fod pawb eisiau agor cynllun cyn gynted ag y bo modd ond y mae sawl peth yn ein rhwystro ar hyn o bryd sef diffyg staff trefnu a diffyg arian datblygu hyd at Ebrill'99. Serch hynny os oes modd rydym am ystyried y gwaith ymchwil a pharatoadol yn yr ysgolion hyn rhwng Nadolig ac Ebrill'99 gyda gobaith o agor tymor yr Haf neu dymor yr Hydref.

Ar yr un pryd mae gennym gynlluniau'r gwyliau i'w trefnu ac fe fydd cynlluniau ar agor rhwng 8.30am-5.30pm bob dydd yn ystod wythnos hanner tymor y gwanwyn ym mis Chwefror'99 yn Rhydfelen, Llanhari, Y Cymer a Rhydywaun. Rydym hefyd yn gweithio tuag at sefydlu meithrinfa gofal dydd i blant dan 5oed yn Trefforest a gan fod adeilad posib ar gael efallai y bydd gennym rywbeth i'w ddathlu cyn diwedd y flwyddyn – diolch byth meddai rhai sydd wedi gweld eu plant yn tyfu tra'n aros am y gwasanaeth holl bwysig yma!

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn unrhyw agwedd o'n gwaith gofal plant hoffwn i bwyso arnoch i ymuno â'r pwyllgor sydd yn trefnu'r ddarpariaeth a fydd yn

MENTER IAITH / INTERLINK

- Mae Sarah, Dave a Nicola eisiau cyfle i ymarfer eu Cymraeg ym Mhontypridd amser cinio dydd Llun neu ddydd Gwener.
Fedrwch chi helpu ?

- Oes ganddoch chi ddiddordeb mewn datblygiad a gofal plant bach ? Oes ganddoch chi ychydig o oriau rhydd yn yr wythnos ? Beth am gysylltu â ni ac ennill llu o ffrindiau a phrofiadau newydd ?

- Ffansio eich hun fel tipyn o DJ ?
Diddordeb mewn profiad yn y cyfryngau ?
(Trwydded yrru'n fanteisiol)
Mae na gyfle gwych yn disgwyl amdanoch chi.

AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH AG ELERI – 01443 485337

cyfarfod rhwng 7-9pm ar nos Fawrth 19 Ionawr yn Trefforest. Mae offer cyficithu yn cael eu ddefnyddio yn y cyfarfod felly os nad ydych yn siŵr o'ch Cymraeg neu os ydych yn gwybod am rywun di-Gymraeg sydd eisiau helpu mae croeso i bawb.

Nid ydym yn esgeuluso'r disgyblion hŷn ychwaith. Diolch i Dawn Williams y mae cwmnïau drama Llanilltud Faerdre yn llwyddo o hyd ac fe fydd perfformiad o Olifer ganddynt cyn bo hir. Mae gobaith hefyd y bydd Mark Aiselwood yn darparu sesiwn Bêl-droed i ddisgyblion Y Cymer yn y flwyddyn newydd. Mae disgyblion Ysgol Uwchradd Treorci newydd orffen recordio eitem "Byw yn Treorci" a fydd yn cael ei ddarlledu ar Radio Cymru ar nos Sadwrn 12fed Rhagfyr diolch i ymdrechion Tomos Morse – a Gethin Thomas a wnaeth ddechrau'r gwaith – a oedd yn gyfrifol am y gwaith recordio. Mae dau o ddisgyblion Y Cymer hefyd wedi dechrau cynorthwyo gyda rhaglen Gymraeg Radio'r Cymoedd sydd yn cael ei darlledu bob nos Sul rhwng 7-9pm gyda'r DJ o Bontypridd Dafydd Phillips. Mae hyn yn ddatblygiad cyffrous newydd i ni ac rydym yn rhagweld y bydd modd i ni drefnu i rai o chweched Rhydfelen/Llanhari wneud yr un prosiect yn y flwyddyn newydd.

GŴYL GYRFAOEDD

AC y mae mwy o hyd ac o hyd! Hoffwn i roi rhag hysbys i'n Gŵyl Gyrfaoedd sydd i'w chynnal ar 29/3/99 ym Mhrifysgol Morgannwg mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Addysg Busnes, Cwmni Gyrfaoedd Morgannwg, Menter a Busnes a'r ysgolion lleol sydd newydd wneud holiadur gyrfaoedd – gobeithio y bydd y canlyniadau yn cael eu dychwelyd yn fuan iawn! Rhag hysbys hefyd i Parti Ponty 1999 a fydd ym Mharc Ynysangharad ar ddydd Sadwrn 3ydd Gorffennaf mewn cydweithrediad â Radio Cymru ac yn ddathliad unwaith eto o lwyddiant addysg Gymraeg yr

Eleri Griffiths
Swyddog Gwirfoddoli
Menter Iaith-Interlink

ardal – felly ysgolion, nodwch y dyddiad a chadw perfformiad i ni ac i'r genedl gyfan!

Wps! Wedi ysgrifennu gormod unwaith eto! Un cais arall – mae angen pwyllgorwyr arnom. Os ydych chi eisiau gweld pethau fel hyn, a mwy, yn llwyddo dewch i ymuno â'n pwyllgor – beth ydy 2 awr bob chwe wythnos i sicrhau dyfodol i'r Gymraeg? Does bosib ei fod yn ormod i ofyn!

Steffan Webb
Swyddog Datblygu Menter Iaith

Mae MENTER IAITH
eisiau
SWYDDOG NEWYDD
yn dechrau 1/1/99
i gynorthwyo gyda phob agwedd o'r gwaith gan gynnwys gofal.
20 awr yr wythnos / £7 yr awr
Ceisiadau trwy lythyr a CV at:
Menter Iaith, Y Tŷ Model, Llantrisant,
Rhondda Cynon Taf.
CF72 8EB
dyddiad cau 11/12/98

SYLWADAU SWYDDOG GWIRFODDOLI CYMRAEG

Dechrau mis Tachwedd ces fy mhenodi yn Swyddog Datblygu Gwirfoddoli Cymraeg gan Fenter Iaith / Interlink, a dwi wedi bod yn y swydd ers tair wythnos bellach. Hoffwn i ddiolch i bawb yn y fenter ag ar dîm Interlink am eu croeso a'u hamynedd wrth ateb fy nghwestiynau di-baid!

Cyn dod i weithio yma rwyf wedi cael amryw o brofiadau amrywiol o fod yn wirfoddolydd fy hun. Treuliais flwyddyn gyda CSV Cymru a blwyddyn mewn cartref plant yn Sri Lanka. Gweithiais i'r elusen PEDEC (Powys Environment and Development Education Centre) a bum yn gwirfoddoli gyda Chanolfan Gynghori Caerdydd. Dwi'n falch o'r cyfle hwn i ddod yn ôl i fy ardal enedigol ac edrych ymlaen i gael fy nannedd mewn i'r gwaith!

Un o fy amcanion fydd i greu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i wirfoddoli yn Rhondda Cynon Taf. Beth bynnag yw eu diddordeb – gwaith gofal, gwaith amgylchfydol, gweinyddu, chwaraeon – gobeithiaf y gallwn ddarparu'r cyfleoedd i wneud y rhain drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rwyf hefyd yn edrych ymlaen i weithio gyda mudiadau a grwpiau gwirfoddol sydd am ehangu eu defnydd o'r iaith a gallaf roi cyngor a chefnogaeth ar sut i wneud hyn. Erbyn dechrau'r flwyddyn nesaf mi fydd gennym fanylion pendant am gyfarfod Fforwm Mudiadau Cymraeg Rhondda Cynon Taf a gobeithiaf y bydd hwn yn gyfle penigamp i drafod materion cyfoes sydd yn effeithio arnom. (Mi fyddwn yn falch pe gall y rheiny ohonoch a dderbyniodd holiadur eu dychwelyd ataf!)

Os hoffech gynnig eich gwasanaeth fel gwirfoddolydd neu dderbyn gwybodaeth bellach cysylltwch â Eleri Griffiths neu Eirwen Mali yn swyddfa Interlink ar 01443 485337.

Barn y Beirniad – Gillian Elisa

Mae'n fraint ac anrhydedd i fod yma. Mae'r neuadd yn fy atgoffa i o Thear Felinfach ger Llanbed, fy nghartre i, ac fel yn y neuadd honno rwy'n teimlo fy mod yng nghanol ffrindiau. Mae'n braf gweld cymuned Gymraeg fel hon.

Canmoliaeth hefyd i'r offer cyfieithu - mae'n hip i fod yn Gymraeg y dyddie hyn!

Rydym wedi cael gwledd o dalent, gwledd o sbort, gwledd o gefnogaeth a gwledd o ymroddiad llwyr. 'Yn ni wedi cael y llon a'r lleddf. Diolch am y gwahoddiad i ymuno gyda chi yn yr ŵyl - mae wedi bod yn agoriad llygaid.

MERCHED BECA
Cwmni Cynradd yr Urdd

Roedd y cynhyrchiad yma wedi ei lwyfannu mewn ffordd weladwy gyffrous a cherddorol. Roedd yr ymroddiad a'r perfformiadau yn ddidwyll iawn - yn amlwg roedd y cast yma wedi mwynhau eu hunain. Roedd y gân agoriadol "Tollbyrth a'r Tristwch" yn addas iawn ac yn gân effeithiol dros ben i ddechrau'r sioe. Wedyn fe geson ni "RAP". Doeddwn i ddim yn disgwyl i'r athrawon ganu o'r llawr hefyd - ond ro'n ni'n teimlo fod y cast wedi'i deall hi - ac er eu fod nhw wedi colli rythm y RAP roedden nhw'n ddigon hyderus i gario mlaen. Roedd y gân "Dros ein pobl, dros ein gwlad" yn gryf a'r gân "Merched Beca w w w" yn aros yn y cof. Diolch am ddechrau'r ŵyl gyda safon uchel a gweld cast bach gyda talent newydd ffres - dwi'n siwr welwn ni Twm Carnabwth (Berwyn Pierce) eto - dal ati!! Cast hyderus egnïol a disgybledig. Ardderchog.

MERCHED BECA
Cwmni Cynradd yr Urdd

13eg GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI

GWLEDD O DALENT, GWLEDD O SBORT

DRAMA IEUENCTID ORAU (Tlws Ysgol / Ieuenctid)
Cwmni Ysgol Gyfun Llanhari

DRAMA OEDOLION ORAU (Tlws Ifan Wyn)
Staff Plasmawr

TLWS PANTO
Panto'r Chweched, Ysgol Gyfun Llanhari

TLWS YSGOLION CYNRADD (Tlws Heddyr Gregory)
Cwmni Cynradd yr Urdd

CWMNI GORAU'R ŴYL (Cwpan T.James Jones)
Staff Plasmawr

ACTORES YR ŴYL (Tlws Emyr Edwards)
Elin Morse

SHIRLEY
Cwmni Ysgol Gyfun Llanhari

Perfformiad slic a phroffesiynol, pawb yn cadw'i ciws - roedd popeth yn gweithio, y cyflwyno, y sbort, yr hiwmor, y llon a'r lleddf. Roedd y gwisgoedd du yn effeithiol dros ben. Roedd pob un o'r cast yn argyhoeddi a phawb yn helpu'i gilydd. Sgript cynnil, cerddoroaeth ddoniol a pherthnasol. Roedd y Shirley Valentines i gyd yn dda gyda cymeriadu graenus ac ynganu clir gan y bechgyn hefyd, yn enwedig Duncan y dyn llaeth.

Ry'n ni gyd yn gwybod stori Shirley Valentine - newydd droi ei deugain oed ac isie bywyd newydd. Roedd y gân "I believe in miracles" yn effeithiol iawn - ond beth am gân Gymraeg, mae digon i gael.

Roedd lot o waith wedi mynd mewn i'r cynhyrchiad yma - ac ar sail hynny roedd y perfformwyr wedi gwneud i'r holl beth edrych yn newydd ac yn ddi-ymdrech. Roedd y llwyfannu'n drefnus a chaboledig. Pan orffenwyd y ddrama dyna ni'n cael y frawddeg fythgofiadwy - "Codwch eich pac a dilynwch eich breuddwyd".

Da iawn.



Gillian Elisa yn cyflwyno Tlws y Panto i Ysgol Gyfun Llanhari

SWYN Y SÊR
Cwmni'r Pentref

Agorwyd y ddrama gyda'r gân Blodwen a Meri - wel o'n i'n gwybod fod i mewn amdani. Dyna Mr Jones (gwr Meri) yn gosod y ddrama. SAGA yw hon - teulu yw'r cwmni yma. Fel ma' nhw'n byw da'i gilydd so i'n gwbod - na chi deulu od ond yn dalentog!! Roedd ymddangosiad y ferch ar y beic a'r ferch ar y beic un-olwyn yn fythgofiadwy. Geso' ni smash hit fan hyn- go iawn, achos grashodd y ferch (Meri) syth mewn ar ben y tlysau i gyd!

Dyna chi "double act". Doeddech chi ddim yn gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd nesaf ac eto i gyd roedd na reolaeth. Clyfar iawn. Ro'n ni'n hoffi'r linell pan ofynnodd y fam i'w merch ar ôl iddi grasho - Gest ti ddolur? "Do" medde Meri "rhwng y dwy Ffolen"!! Mae Meri (Elin Morse) yn unigryw, mae hi'n ofnadwy o ddigri. Roedd ei chymeriadu yn gynnil - fel wnaeth hi ganolbwyntio o'r cychwyn cyntaf. Ac roedd ei mam yn ddoniol hefyd, gyda'i llinellau bythgofiadwy - MEN ON PAUSE a Niagra Falls, Viagra Rises.

Gas y dynion amser caled yn yr ail ran. Roedden nhw'n hapus ar y Soffa/Gwely, a'r peth nesa dyna Meri'n dod i mewn a rhoi cic i'r gwely a dyna'r gwely'n plygu fel sa fe'n llyncu'r ddau ohonyn nhw. Roedd hynny'n showstopper.

Do, nes i fwynhau gyda'r gynulleidfa - roedd yr holl beth yn ddoniol tu hwnt. Disgwyl mlaen i weld chi 'to.

Cwmni'r Pentref

Shirley - Cwmni Ysgol Gyfun Llanhari

DAN Y WENALLT Ysgol Gyfun Plasmawr

Fel Ysgol Llanhari geso ni gân Saesneg i agor y ddrama. Yn bersonol sa well 'da fi glywed cân Gymraeg. Braf oedd cael gweld y merched yn gwneud Llais 1 a Llais 2 - Fflur Dafydd ac Alex Chatsworthy - godidog. Roedd y llwyfannu'n dda yn symud o un peth i'r llath yn gynnil. Roedd Mrs Ogmore Pritchard gyda'i charthen yn weladwy iawn a Mrs Ogmore a Mr Pritchard yn cadw eu cymeriadau yn stret. Y Parch Eli Jenkins - Siôn Lewis - dyna gariad oedd hwn bron fel angel a'i linell anfarwol "Ie Wir".

Cyflwyniad cofiadwy iawn. Roedden ni gyd moyn gweld mwy. Do fe geson ni flas Plasmawredd o Dan y Wenallt ond ble oedd Poli Gardis? Elenid Hatcher rho go arni. Da iawn chi.

Diolch

Nid ar chwarae bach mae trefnu gŵyl mor llwyddiannus a hon ac amhosib fyddai rhestru pawb a gyfrannodd i'r hwyl. Ond yn y diwedd roedd y baich yn disgyn ar Colin Williams ac mae'n dyled yn fawr iddo am sicrhau'r wledd ddiwylliannol.

13eg GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI

GRÎS Y PHARSMAWR
Cwmni Drama
Staff Pantsmawr

A dyna ni'n cael cân agoriadol Gymraeg - Hwrê! Dyna gynhyrchiad a sgript liwgar, bywiog ac egniol. Ro'n ni'n hoff iawn o fel o' chi wedi addasu'r stori yna i'ch ardal chi. Er enghraifft "Haf gore yn Trecco Bay". Roedd yr ysgol yn mwynhau tynnu coes Ysgol Llanhari drwy'r amser! Roedd na ganu gwych. Roedd y prifathro (G. Wyn Jones) yn amlwg yn cael "buzz" yn chwarae ei ran. Dwi'n credu nath e gyrraedd y brig - roedd e'n dala'r gynulleidfa yn ei law. A beth am yr athrawes yna nath y "splits". Dwi'n siwr gesoch chi hwyl yn ymarfer. Wel eisteddes i nôl ac fe wnes i fwynhau'r sioe yn fawr iawn. Doedd dim rhaid meddwl yn rhy galed. Eistedd nôl a chael fy niddanu. Dewis da i'r achlysur, Mae addasu stori fel hyn i'r Gymraeg yn gweithio'n dda. Gawsoch chi gymeradwyaeth heb ei ail - pawb yn hapus. Gwych.

Cwmni Drama Staff Plasmawr

Cwmni Cwm Ni

Y TRAP
Cwmni Cwm Ni

Dechreuad deheuig iawn gyda'r set yn dangos y cyfnod yn y cyfieithiad gan Gareth Williams o Y Trap gan Agatha Christie. Ro'n ni'n hoff iawn o'r hen gramaphone a'r ffordd roedd y gerddoriaeth, hynny yw, yr hen record yn chwarae.

Dyna chi bedwar cymeriad ar y llwyfan mewn arddull "whodunnit". Ro'n i'n sylwi fod y gynulleidfa yn gwrando ar bob gair. Fe lwyddodd y cast i ddweud y stori'n glir. Roedd y gwisgoedd yn arbennig o soffistigedig. Gall y symudiadau fod wedi bod bach mwy cyflym - tueddiad i lusgo'r geiriau ambell waith. Gyda drama gyffrous rhaid bod yn gyflym gyda'r ciws. Pan ddaeth David i mewn (Ben Jones) cawsom chwistrelliad o gynnwrf. Roedd e'n gredadwy ac roddodd e rythm addas i'r chwarae - ond gallai fod tamaid bach mwy positif eto gyda'i linellau.Roedd isie cyflymu rhediad y ddrama.

"Uffarn dân" medde David wrth iddo ffeindio corff John, gŵr Sandra yn y gist. A dyna pawb yn chwerthin mewn rhyddhad. Fe lwyddodd John i ysgafnhau'r tensiwn a mae eisiau hyn mewn drama gyffrous. Cyflwyniad graenus a diddorol.

AMC
Cwmni'r Diawled Dawnus

Pan agorodd y llenni welo' ni set ore'r gystadleuaeth - effeithiol a lliwgar. Yn y cefn oedd cartwnau caricature o'r dair cantores , Amy, Emma a Catrin. Oedd ôl llawer o waith ar gynllunio'r set. Roedd y merched oedd yn cymryd rhan yn bert ac yn ddeniadol. Sdim ishe i chi edrych lawr ar eich traed - peidiwch a bod yn siei. Amy oedd yn cadw pob dim i fynd ac roedd Emma a Catrin yn amlwg yn enjoio beth o nhw'n wneud. Fe wnaeth Nic yn reit dda yng nghanol y merched - fi'n siwr y welwn ni ti 'to. At ei gilydd roedd y cynhyrchiad braidd yn araf ond fe gododd beth stêm cyn y diwedd. Daliwch ati.

Panto Ysgol Gyfun Llanhari

Panto Cwmni Gwen

Diawled Dawnus'

PANTO'R CHWECHED
Ysgol Gyfun Llanhari

Wel na "strabs" yw rhein te - geso' ni Bantomeim - tamaid i aros pryd cyn y Nadolig. Roedd y gân agoriadol yn dlws iawn. Fe gyflwynodd Rhiannon Rhosyn (Ria Copley) ei hun i ni ac fe ganodd "Ar ben fy hyn" yn swynol ac yn hyfryd. Roedd y gerddoriaeth yn wreiddiol ac fe fwynheuais y stori - stori serch, syml. Mae hyn wastad yn boblogaidd. Cawson ni gomedi, rhamant a'r pryfed cas. Roedd Rhodri Bye fel y Dame yn argyhoeddi lot gwell na hyd yn oed Lily Savage. Oedd e'n bert iawn. Fe ganodd Prif Pryfyn y Pryfed Cas, Patricia Pryfyn (Angharad Bizby) gân wrthryfelgar - roedd hon yn gallu "belto".

Roedd Aled Davies fel Percy Bach y Pryfyn Diniwed yn ddoniol ac yn ddidwyll!! Roedd Alexis Barnard fel Derwen yn arbennig hefyd. Roedd y gynulleidfa wedi mwynhau yn fawr iawn ac o ganlyniad cododd pawb ar eu traed ar y diwedd i gymeradwyo. Diolch i chi am fod mor fentrus ac am y difyrrwch gethon ni gyda chi.

PANTO YN Y PANTRI
Cwmni Gwen

Agoriad bywiog. Roedd Ffion Fforc a Catrin Cyllell (Mared Swain a Catrin Dafydd) wedi rhoi 100/100 o egni i mewn i'r Panto yma. Ro'n ni'n hoffi'r caneuon eto, ac roedd y gân cyllell a fforc yn gweithio'n dda i'r gan "Chwarae'n troi chwerw". Geson ni harmoni hefyd. Roedd y sgript yn dda - dechre, canol a diwedd. Roedd hi'n eitha syml i ddilyn. Sali Sosban - o ti'n grêt! Welwn ni ti to - amseru da da'r boi na! A dyna chi Tegwen a Tom Tap (o'n ni'n hoffi'r llinell "Pam na droian nhw ni mlaen yn barhaol"). Roedd Lowri Jones fel Bodrewllyd Bin yn gas ac yn effeithiol gyda'i 'gamp'. A dyna Anti Fferi Licwid (Ryan Chapel) - 'yn ni'n bendant yn mynd i weld ti eto!

Roedd ymateb y gynulleidfa yn dda. Ac yna fe gawson ni y diweddglo - stori serch eto. Da iawn, enjoies i.

13eg GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI

D'EWYTH JAC gan Dafydd Murphy.
Cwmni'r Dwrlyn

Ie wir! Roedd lot o wigs yn y cynhyrchiad yma. Ond 'on nhw wedi gwneud y gore o'r gwisgoedd a'r coluro. Dyna chi Catrin a Nerys yn gosod y ddrama ac yn paratoi ni tuag at ymddangosiad Lydia Lewis (Margaret Roberts). Cymeriad lliwgar - roedd ei chymeriadu'n wych. Mae'r ddynes yna'n gallu actio!! O'n ni lico'r hen Anti Nel – roedd hi'n atgoffa fi o Mrs Gwyther ym Mhobl y Cwm! Wedyn geson ni Robin. O'n ni bron a ffansïo fe!! Roedd y cyfarwyddo'n broffesiynol iawn - roedd y gynulleidfa'n gwrando ar bob gair. Roedd y rhediad yn llyfn. Ro'n ni'n ffili aros i weld Carlo Caribini - yn 'doedd y wig a'r mwstash yn actio'n dda.

Wedyn i orffen o gwmpas y ford - neuadd yn dawel a chi'n gallu teimlo'r awyrgylch. Do fe 'netho chi greu awyrgylch sinistr iawn. A dyna Ewyth Jac yn siarad - ffindo mas yn y diwedd taw ysbryd oedd e. Y boi bach golygus, Robin, yn datgelu'r cyfan – 'sgwn i pwy oedd e? Arbennig.

D'EWYTH JAC Cwmni'r Dwrlyn

Cwmni Staff Llanhari

DIGALONDID ÔL-AROLWG
Cwmni Staff Llanhari

Dyma ni'n cael datganiad fod ysgol Llanhari yn gorfod cau - yr uwch-athrawon wedi penderfynu dyfodol yr athrawon trist yna. A dyna ni'n eu gweld nhw'n mynd trwy pethe. Roedd Ianto Pencoed ddim yn gall a Dafydd Dafis yn edrych fel 'se fe'n mynd i golli dynes. Rifiw oedd hwn - chwarae teg i Ginger Spice, fe gadwodd hi bopeth i fynd. Roedd y llwyfan yn wag cwpwl o weithie - beth oedd yn digwydd! Roedd y sgript yn ddichwacth fan hyn a fan draw ond aeth dawns y glocsen i lawr yn dda.

Roedd y boi yn y trwsus lledr yn rhywiol dros ben - yn well na Tom Jones - oedd e'n gallu symud ond oedd e? Flexi a sexy - seren y sioc. Wedyn y ddau fachan yn ymddihatru mewn ffyrdd "full montiaidd". Roedd y ddawns yn bryfoclyd tu hwnt. Doedd dim athrawon fel hyn i gael pan o'n i yn yr ysgol! 'Netho nhw "socio fe" i mi ond 'dofe - a dyna ddiweddglo. Bois bach ych chi'n ddrwg. Grêt.

Dan y Wenallt

Ysgol Gyfun Plasmawr

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Eleri Jones

Tipyn o Gamp
Llongyfarchiadau i ddwy o ferched y pentref ar eu campau ym myd chwaraeon ac ymddiheuriadau oherwydd i'r cyfrifiadur wrthod yr hanes fis diwethaf! Dewiswyd Cerian Hughes, Maes y Sarn i chwarae pêl-rwyd dros ardal Taf Elai a Nia Morris, Troed y Garth i chwarae i dîm hoci'r ardal.

Ar Daith
Mae dau arall o ieuenctid y pentref wedi teimlo'r ysfa i deithio a gweithio dramor dros dro. Pob hwyl i Rhys Beard a David Matthews sy'n gadael i weithio yn cira'r Swisdir dros fisoedd y gaeaf.

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad i Nia Wyn Williams, Mari, Sion a'r teulu ar farwolaeth tad Nia, Yr Athro A. O.H. Jarman, yn ddiweddar.

Ar y Sgrîn
Efallai i rai ohonoch rai wythnosau'n ôl weld wyneb cyfarwydd Philip Madoc o gwmpas y pentref. Os edrychwch chi ar y rhaglen "Shadow Falls" ar HTV ar ôl y Nadolig hwyrach y gwelwch chi olygfeydd cyfarwydd o'r pentref yn gefndir i ddigwyddiadau cyffrous y stori ddirectif.

MYW
Bu'r aelodau'n paratoi ar gyfer Y Nadolig yng nghwmni Alma Carter yn ddiweddar a chafwyd noson hwylus yn ei chwmni a nifer o awgrymiadau gwerthfawr ar gyfer addurno'n cartrefi ar gyfer Yr Wyl.

Clwb y Dwrlyn
Cynhaliwyd gyrfa chwist lwyddiannus arall ganol Mis Tachwedd a'r trefniadau unwaith eto yn nwylo Ken a Pat Sedgebeer a Jim Morris yn llywio'r gweithgareddau yn ei ddull dihafal ei hun. Enillwyr y noson oedd Penri Williams, Nia Williams, Gill Rees ac Eric Davies.

TALWRN Y BEIRDD

Tîm Talwrn y Beirdd "Y Dwrlyn" fydd un o'r tri thîm yn yr ornest yn yr wythnos cyn y Nadolig ar Radio Cymru - ar Rhagfyr 20 a 22. Mae'r ornest eisoes wedi ei recordio yn Rhydaman ac fe fydd raid aros tan hynny i weld sut hwyl gafodd y pum aelod, Rhodri Gwyn-Jones, Huw Llewelyn Davies, Menna Thomas, Emyr Phillips ac Ifan Roberts, yn erbyn Llandysul a Llambed.

Mae tîm newydd sbon arall y Talwrn - Aberhafren - wedi codi o ddosbarth cynganeddion mae Rhys Dafis yn ei gynnal yn festri Gwaelod y Garth. Roeddent hwythau hefyd yn "Talyrna" yr un noson a'r Dwrlyn. Mae argoelion ei bod nhw'n griw ifanc peryglus! Gwyliwch a gwrandewch amdanyn nhw. Gwrandewch hefyd am dîm yr "Awyr iach" - mi fyddan nhw yn ymuno â'r gyfres ar ôl y Dolig – unwaith eto'n gynnyrch y dosbarth.

Newid Dwylo
Gan i un o'm cyd-ohebwyr yn y gorffennol roi sylw i dafarndai'i hardal dyma benderfynu dilyn ei hesiampl! Mae Tafarn y Lewis yn y pentref wedi newid dwylo a'r perchnogion newydd, Jeff a Lynne, wedi symud yno o dafarn y Church Inn yn Llanisien. Mae'r cyn berchnogion wedi gadael i gadw gwesty yn Ninbych y Pysgod.

Thesbiaid!
Cyfrannodd ein pentrefwyr yn helaeth unwaith eto at lwyddiant Gwŷl Ddrama Tafod Elai a gwelwyd nifer o ddoniau lleol ar y llwyfan. Heb enwi neb, llongyfarchiadau i bawb fentrodd ein diddanu yn aelodau o banto Llanhari, Cwmni Gwen, a Chwmni'r Dwrlyn.

Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn â Lyn Devonald, 'O'r Diwedd', Pentyrch a'r teulu ar golli mam a mamgu yn ddiweddar.

A sôn am y dosbarth, mae mor niferus a phoblogaidd eleni nes ei fod yn cael ei gynnal ar ddwy noson yr wythnos ar hyn o bryd – a'r oed ym amrywio o ddisgyblion ysgol a myfyrwyr colegau i rai wedi ymddeol – o'u gwaith, nid o geisio dysgu cynganeddu!

CYFROL Y TALWRN

Mae gwaith nifer o aelodau'r timau lleol yng nghyfrol "Talwrn y Beirdd 9". Prynwch gopi a gofynnwch i'r awduron roi eu llofnod ar eich copi!

DRAMA YN Y PWDIN!

Ers rhai blynyddoedd, bu'n arferiad gan gast cwmniau drama'r Dwrlyn gael noson allan ar ôl eu hymdrech fawr yng Ngŵyl Ddrama'r Tafod. Ar ôl cefnogi sefydliadau o'r Dwyrain Pell ar sawl achlysur, daeth cyfle i newid lleoliad. Ar ôl hir ystyried, penderfynodd y criw fynychu sefydliad newydd sbon - Y Pwdin - sef y lle rhyfeddol hwnnw yn Llanilltud - Faerdref sydd â dywediadau a dyfyniadau ar bob pared yn gyfangwbl Gymraeg.

TROI'R CLOC

Mae newid o BST i GMT yn gallu bod yn boen - ond fel arfer ar y bore canlynol i bawb bron!. Daeth ein sbei lleol i glywed am ddau lanc o Bentyrch yn troi allan ar y nos Wener canlynol – chwe diwrnod ar ôl troi'r cloc ac yn dod adre awr cyn eu hamser! Dyn â wyr sut llwyddodd y ddau i dreulio wythnos mewn "time zone" gwahanol i bawb arall cyn cael eu dal ar y nos Wener.

CLWB Y DWRLYN

Ar 23 Rhagfyr mae Clwb Y Dwrlyn yn cwrdd i gael noson fach o sbri byr-fyfyr .

8.00 pm Tafarn y King's

Gwyliwch allan am y pamffledi a'r manylion.. (neu ewch ar ôl un o'r pwyllgor am fanylion).

FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Golygydd Lleol: Martin Huws

TRYDYDD CAIS I GLWB RYGBI

Er i'r Cyngor wrthod caniatâd cynllunio ddiwedd Hydref, mae Clwb Rygbi Ffynnon Taf yn gobeithio gwneud cais arall i godi cyfleusterau newydd ar dir glas. Hwn fydd y trydydd cais.

Mae pwyllgor y Clwb yn mynnu na allan nhw ddatblygu heb symud i Lan-y-llyn ac os yw'r trydydd cais yn cael ei wrthod, mae'n bosib' iawn y bydd y Clwb yn cau.

Ar hyn o bryd mae'r pwyllgor yn gofyn i gyfreithwyr astudio eu cais ac os yw'r ymateb yn ffafriol, fe fydd y pwyllgor yn danfon y cais at Gyngor Rhondda Cynon Taf.

"Fe fydd y cais newydd yn cynnwys clwb rygbi, cae rygbi a chae hyfforddi," meddai Gwyn Davies, llywydd y clwb. "Rwy'n gobeithio annerch y bobol lleol er mwyn trafod eu gofidiau. Os safwn yn yr hen safle, fe fyddwn yn creu problemau mawr i'n hunain," meddai.

Y RHWYG O GOLLI'R HOGIA

Wrth i bobol ddathlu Cadoediad y Rhyfel Mawr ar Dachwedd 11, fe ddaethpwyd o hyd i hanes dau frawd o'r un pentre' a gafodd eu lladd yn yr un frwydr o fewn ychydig o eiliadau.

Y ddau oedd Is-Gapten Leonard Tregaskis, 33 oed, ac Is-Gapten Arthur Tregaskis, 32 oed, o Ffynnon Taf a gafodd eu lladd ym Mrwydr Coed Mametz ar Orffennaf 7, 1916. Yn ôl y gyfrol, The War Graves of the British Empire, mae'r ddau wedi eu claddu ym Mynwent Flatiron Copse, Mametz, bedair milltir o Albert yn Ardal y Somme, Gogledd Ffrainc.

Roedd y ddau yn Unfed Fataliwn ar Bymtheg y Gatrawd Gymreig a phan gawsant eu lladd roedd eu rhieni, George a Julia Tregaskis, yn byw yn Millbrook, Jersey.

Mae rhifyn Gorffennaf 20, 1916 o'r papur wythnosol, The Glamorgan Free Press, yn dangos fod dau Gymro arall o' bentre' arall yn Ne Cymru wedi eu lladd ym Mrwydr Coed Mametz.

Y ddau oedd Corporal Tom Hardwidge, 17 High Street, Ferndale, ac Is-Gorporal Henry Hardwidge, 13 Lake Street, Ferndale. Roedd y ddau, a gafodd eu lladd ar Orffennaf 11, 1916, yn y Gatrawd Gymreig.

Pan gafodd Tom ei anafu, fe fentrodd Henry allan i gynnig dwr iddo. Yna fe gafodd y ddau eu lladd yn syth.

ADEILADWYR YN TWNELU

Mae contractwyr newydd ddechrau gweithio ar ran gynta' Cynllun Heol Fynediad Ffynnon Taf.

"Rydym yn bwriadu cloddio o dan yr heol newydd, y lein rheilffordd ac o dan Heol yr Eglwys er mwyn adeiladu pibell draenio fydd yn cyrraedd afon Taf," meddai llefarydd ar ran Barhale Construction.

Disgwylir y bydd ail ran y cynllun yn dechrau yn Rhagfyr ac yn para tan Ebrill 1999. Fe fydd y drydedd ran yn dechrau os yw arian yn caniatáu. Yn ôl Cyngor Rhondda Cynon Taf, fe fydd nifer y llefydd parcio ger yr orsaf yn codi o 51 i 93.

TARGEDU GYRWYR CYFLYM

Ar ôl agor swyddfa newydd yn Ffynnon Taf mae'r heddlu wedi lansio ymgyrch yn erbyn gyrwyr cyflym. O fewn awr ar Dachwedd 6 fe gafodd 13 o yrwyr eu dala.

"Nid gyrwyr cyflym yw'r unig broblem yn y pentre'," meddai llefarydd ar ran Heddlu'r De. "Rydym wedi derbyn nifer o gwynion am blant yn eu harddegau'n sarhau brodorion hŷn ac yn achosi trafferth."

Cwnstabl Andrea Llewellyn yw'r swyddog cymunedol newydd. Yn ei swyddfa yn Llys Scimitar, Heol Caerdydd, mae'n gobeithio ymateb i ofynion pobol leol Ffynnon Taf, Ty Rhiw a Nantgarw.

GORMOD O ALCOHOL

Fe gafodd Jeffrey Thomas Jones, 50 oed, o Heol Fach, Nantgarw, ei wahardd rhag gyrru am flwyddyn a dirwy gwerth £200 ynghyd a chostau gwerth £35 ar ôl iddo yrru gyda gormod o alcohol yn ei waed.

Dangosodd profion fod 57 microgram o alcohol mewn 100 mililitr o anadl. Yr uchafswm cyfreithiol yw 35 microgram.

DIGWYDDIADAU

CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-Garth, Rhagfyr 4, 7.30pm yn y Festri, Cwmni'r Gadwyn, Darlleniadau a Chan ar sail Cynnyrch Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr. Mynediad am ddim. Casgliad rhydd-elw at Nicaragua. Dewch yn llu. Mwy o fanylion oddi wrth Emyr Edwards, 843855.

Rhagfyr 6: y Gweinidog a Chymun, 10.30am; Cyngerdd Cor Caerdydd, Elw at Ysbyty Felindre er cof am Eleanor Thomas, 6pm; Rhagfyr 13: Gwasanaeth mewn Cartre' Hen Bobol, 10.30am; Rhagfyr 20: Gwasanaeth y Plant, 6pm; Rhagfyr 25: Gwasanaeth Nadolig CAIB, 10am; Rhagfyr 27: y Parchedig Milton Jenkins.

CYLCH TI A FI, Ffynnon Taf: bob prynhawn Mawrth yn ystod y tymor, Neuadd Pentre' Ffynnon Taf, 1.30-3pm. Manylion oddi wrth Heather Rollinson-Davies, 01222 811582. Ffair Nadolig yr Ysgol Feithrin, Rhagfyr 5, 11am, Neuadd y Pentre', Ffynnon Taf.

CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch: dydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 01222 810241.

DAWNSIO DILYNOL MODERN: bob nos Sadwrn, Neuadd y Pentre', Ffynnon Taf, 7.45-10.15pm. Manylion: 01222 561991. Bob nos Fercher, Neuadd y Pentre', Gwaelod-y-Garth, 7.30pm.

WEIGHT WATCHERS: bob nos Iau, Neuadd Pentre' Ffynnon Taf, 6pm. Mwy o fanylion: 0345 123000.

YSGOL GWAELOD-Y-GARTH: Rhagfyr 9 a 10: Cyngerdd Nadolig, Capel Bethlehem. Diwedd y tymor: Rhagfyr 18. Dechrau'r tymor i'r plant: Ionawr 5.

HAUL AR Y FODRWY

Llongyfarchiadau i Jane Davies a Marc Rapson a briododd yn Eglwys Eglwys Ilan ar Dachwedd 7. Roedd y wledd briodasol yn Llancaiach Fawr.

Jane yw merch Joan a Ron Davies, Caerffili. Mae'n gweithio fel cynorthwy-ydd personol. Gwerthwr yw Marc, mab Patricia a Graham Rapson, Rhiwddar, Ffynnon Taf. Fe aeth y ddau, sy'n byw yn The Lodge, Glan-y-llyn, i Giwba ar eu mis mel.

MARW GWYN BOOBIER

Yn sydyn gartre' yn 11 Pentwyn, Deintyr, Mynwent y Crynwyr (ond yn gynt o Dafarn Gwaelod-y-Garth) fe fu farw Gwyn Boobier, gwr Phyllis, tad Irene, tadcu Michael a brawd Arthur ac Idris.

Roedd yr angladd ar Hydref 30, y gwasanaeth yng nghapel preifat John Davies a'i Feibion, Park Terrace, Trelewis, am chwarter wedi dau a'r traddodiant yn Amlosgfa Glyntaf am dri o'r gloch. Cydymdeimlwn a'r teulu.

CODI ARIAN

Llongyfarchiadau i blant Ysgol Gwaelod-y-Garth sy' wedi codi £289 ar gyfer Peiriant Sganio Ysbyty Dwyrain Morgannwg a £231.65 ar gyfer Plant mewn Angen.

ETHOLIAD HWYR?

Yn ôl cofnodion Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gwaelod-y-Garth, dyw'r Clerc ddim wedi dechrau'r broses o drefnu etholiad ar gyfer rhiant/llywodraethwr newydd.

Dyw'r prifathro, Gerwyn Williams, ddim wedi derbyn unrhyw wybodaeth oddi wrthi ond deellir fod y Clerc, Ms Winter, wedi ymddiswyddo. Er bod yr Uned Gefnogi'n erbyn unrhyw drefniadau mewnol i lenwi'r swydd, mae'r prifathro wedi gofyn am glerc dwyieithog.

Mae angen rhiant/llywodraethwr newydd achos bod tymor Heather Davies-Rollinson wedi dod i ben. Diolch iddi am ei gwaith canmoladwy.

Yr amserlen yw:

Dosbarthu ffurflenni enwebu i rieni erbyn Rhagfyr 11. Dyddiad cau enwebiadau ar Ragfyr 18. Dosbarthu papurau pleidleisio ar Ionawr 15. Dyddiad cau'r bleidlais ar Ionawr 29. Cyfrif ar Chwefror 1.

GWASANAETH NEWYDD I GYNHALWYR

Ych chi'n edrych ar ôl rhywun sy'n sâl neu'n anabl, neu rywun sy'n methu ymdopi gystal erbyn hyn oherwydd ei fod wedi mynd yn fregus?

Fe all gofalu ar ôl rhywun fod yn flinder ac yn straen a falle'ch bod chi'n teimlo'n unig a diymgeledd nawr ac yn y man. Ych chi'n teimlo y gallai eich iechyd chi eich hun ddiodde oherwydd eich rôl fel cynhalydd? Hyd yn oed os ych chi'n hoffi neu'n caru'r person yr ych chi'n gofalu amdano'n fawr, fe all yr holl bwysau sy arnoch chi fod yn llethol. Yn amlach na pheidio does dim amser gennych chi i chi'ch hunan i ymlacio a dadweindio.

Mae ymron 6 miliwn o bobl yn y DG yn gynhalwyr; 350,000 ohonyn nhw yng Nghymru. Gwragedd yw tua 3.3 miliwn o'r cynhalwyr a dynion yw 2.4 miliwn ohonyn nhw. Fe all i fyny at 51,000 o gynhalwyr fod dan 18 oed, y rhan fwyaf yn cynnal rhiant. Dyw cynhalwyr ddim yn derbyn cyflog am yr hyn a wnânt a dyw eu rôl o gynnal ddim yn dwyn statws neu gontract cyflogaeth. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn rhoi swydd gyflogedig i fyny neu'n gostwng eu horiau i ofalu am rywun.

Mae Cymdeithas Genedlaethol y Cynhalwyr yng Nghymru yn ceisio codi ymwybyddiaeth o anghenion cynhalwyr ar bob lefel o lywodraeth a chymdeithas; yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i gynhalwyr, eu galluogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch darparu cynhaliaeth ac ynghylch lefel y gynhaliaeth honno.

Ar 1af Hydref dechreuodd gwasanaeth newydd i gynhalwyr sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf. Gall cynhalwyr ffonio CarersLine Rhadffon i gael pecyn cynhalwyr am ddim neu i ofyn am wybodaeth ynghylch pynciau sy'n achosi pryder iddyn nhw yn eu rôl o gynnal.

Amcangyfrifir bod tua 32,000 o gynhalwyr yn byw yn Rhondda Cynon Taf. Er bod yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn rheoli' ystod eang o wasanaethau uniongyrchol i gynhalwyr, mae nifer o gynhalwyr sydd wedi cymryd rhan yn yr arolygon wedi dweud mai un o'u prif anghenion yw gwybodaeth cyn iddyn nhw gyrraedd pen eu tennyn. Mewn ymateb i hyn mae Project Cynnal Cynhalwyr, a ariennir gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi ei osod i helpu i ymateb i anghenion pob cynhaliwr, ac nid y rhai y mae'r Adran yn gwybod amdanyn nhw'n unig.

Mae'r pecyn cynhalwyr ar gael yn Gymraeg a Saesneg, mewn print bras ac ar dap i'r rhai hynny sydd ag amhariad ar eu golwg.

Meddai Dee sy'n cynnal ei gwr, "Pe bai'r pecyn a'r CarersLine yma ar gael pan ddechreuais i gynnal, fyddwn i ddim wedi teimlo mor unig neu mor anwybodus ynghylch y gwasanaethau oedd ar gael i'm helpu fel cynhaliwr".

Mae'r Project Cefnogi Cynhalwyr ar gael hefyd i drafod unrhyw syniadau a all fod gan bobl i ymateb i anghenion cynhalwyr yn eu cymuned leol.

Meddai Mr. Bernard Majer, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol:

"Rydym wrth ein bodd ein bod yn medru agor y gwasanaeth newydd hwn i gynhalwyr na chant eu cydnabod yn aml, ac eto rai sy'n gwneud cyfraniad arwyddocaol i fywyd eu teuluoedd a'r gymuned leol. Rydym yn gobeithio y bydd CarersLine a'r pecyn yn cael eu defnyddio'n helaeth ac y byddan nhw'n helpu cynhalwyr yn yr hyn a all fod yn gryn straen yn aml. Rwy'n gobeithio hefyd y gall CarersLine ddysgu inni sut y gallwn ni ddatblygu ein gwasanaethau ymhellach i gynhalwyr i ymateb i'w gofynion".

Gall cynhalwyr ffonio Rhadffon Dydd Llun hyd Ddydd Gwener o 10am-2pm, a 3pm7pm ar: CarersLine 0808 100 1801

Llinell Minicom 0800 100 1675 (Mae peiriant ateb ar gael tu allan i'r oriau uchod)

Am ragor o wybodaeth am waith Cymdeithas Genedlaethol y Cynhalwyr yng Nghymru ffoniwch 01222 880176.

YSGOL GYFUN LLANHARI

LLANHARI'N LLWYDDIANNUS!

Rhagorodd disgyblion Llanhari ar ôl diwrnod o arcithio a dadlau'n gyhoeddus yn erbyn rhai o sefydliadau addysg gorau'r De yn y Deml Heddwch, Caerdydd. Dadleuwyd a thraethwyd yn gelfydd, yn Saesneg, ar bynciau yn amrywio o blismona'r rhyngrwyd, bwyd wedi'i newid yn genetol i ddirywiad yr iaith Gymraeg a'i le yn yr Ewrop newydd.

Daeth grŵp o ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Ddwyieithog Llanhari yn gyntaf mewn cystadleuaeth ddydd Gwener 13 Hydref.

Trwy gymorth y `Centre for Education in World Citizenship (CEWC) - Cymru' trefnodd Senedd yr Ifanc yn Ewrop (European Youth Parliament) ddiwrnod llawn hwyl a chystadlu. Trafodwyd testunau a baratowyd o flaen llaw ac ar bynciau byrfyfyr, megis rôl y wasg wrth ddilyn bywydau personol pobl. Profwyd sgiliau ymchwilio trylwyr, cyflwyno'n gryno, deallus a diddorol a'r gallu i feddwl `ar eich traed'.

Plesiwyd y gwr gwadd, David R Morris, Aelod Seneddol Ewropeaidd, gan safon y cystadlu. Dywedodd ei fod yn cymharu'n ffafriol gyda'r hyn a glywir yn San Steffan a Senedd yr Undeb Ewropeaidd. Gan gyfeirio at y myfyrwyr chweched dosbarth, nododd fod Democratiaeth yn ddiogel yn eu dwylo"

Cai'r tîm fynd ymlaen i'r rownd nesaf yn Efrog, fis Medi 1999, gyda'r cyfle i gystadlu yn Weimar, yr Almaen neu Athen os yn fuddugol yno.

TAITH GERDDED FLYNYDDOL YR YSGOL

Trefnwyd taith gerdded yr ysgol ar gyfer ddydd Gwener 16eg Hydref a cherddodd disgyblion blynyddoedd 7,8,9,10 a 12 gyda'r athrawon ddwy waith o amgylch lonydd pentre Llanhari sef tua pum milltir. Er gwaetha'r tywydd gwlyb cafwyd hwyl a sbri er lles Llanhari.

LLWYDDIANT YN AWSTRALIA

Lisa Evans

Daeth Lisa Evans, disgybl Bl 9, yn ôl o Awstralia yn hapus iawn ar ôl bod yn llwyddiannus ym Mhencampwriaethau y Byd yn Sydney. Daeth Lisa yn ail yn y byd yn y gystadleuaeth Trampolîn Unigol. Enillwyd y gystadleuaeth gan ferch o Unol Daleithiau'r Amerig o un pwynt yn unig!

Daeth Lisa yn gyntaf yn y gystadleuaeth Trampolîn Synchro gyda merch o Lerpwl o'r enw Colleen Stopforth. Roedd hi yn wythfed yn y gystadleuaeth "Mini Trampolîn".

Roeddynt yn cystadlu yn y Sydney Estates Arena lle bydd y gemau Olympaidd yn cael eu cynnal yn y flwyddyn 2000.

Yn ystod ei thair wythnos yn Awstralia cafodd Lisa gyfle i ymweld â'r Blue Mountains - parc thema enfawr o'r enw Wonderland, traeth Manley lle mae rhaglen Home and Away yn cael ei ffilmio a hefyd bu'n deifio yn y Barrier Reef gerllaw dinas Cairns.

Ar y daith draw i Awstralia, cawsant gyfle i ymweld â Bahrain lle buont yn treulio tridiau.

Cofio Lucy Horne

Yn sydyn iawn ar ddydd Sadwrn 17eg o Hydref bu farw un o ddisgyblion annwyl blwyddyn 11. Roedd Lucy Horne yn ferch hoffus, fywiog, hapus, bob amser gyda gwên ac yn boblogaidd yn ei blwyddyn gyda'r athrawon a'i chyfoedion.

Tarwyd hi yn wael gyda llid yr ymennydd ar y bore Sadwrn hwnnw ac er fod ei rhieni wedi mynd â Lucy i'r ysbyty ar unwaith, a hithau wedi cael triniaeth yn yr uned gofal dwys gyda gwrth fiotig yn syth, yn drist iawn ni wellodd hi.

Bu'r angladd yn Eglwys St. Michael yn y Beddau ddydd Iau yr 22ain Hydref a roedd nifer fawr o'r ffrindiau ac athrawon yno.

Ar ddydd Gwener, 30ain o Hydref cafwyd gwasanaeth ysgol gyfan i ddiolch am fywyd Lucy. Cymerodd tair o'i ffrindiau ran yn y gwasanaeth i dalu teyrnged i Lucy ac ar ddechrau a diwedd y gwasanaeth fe chwaraewyd ei hoff ddarn o gerddoriaeth.

Cafwyd casgliad yn yr ysgol ar ddiwrnod y gwasanaeth ac fe fydd yr arian yma yn mynd at elusen Tŷ Hafan yn Sili, gan mai hynny oedd dymuniad rhieni Lucy. Codwyd £900 at yr achos.

SIOP BARA Y PENTREF

Heol St Illtyd

Pentre'r Eglwys

Bara a chacennau wedi eu pobi yn y siop mewn ffwrn draddodiadol.

Mrs Janet Evans

01443 202013

Trefnir Arlwyo

Os am

DIWNIWR PIANO

Cysyllter â

Hefin Tomos

16 Llys Teilo Sant,

Y Rhath

CAERDYDD

Ffôn: 01222 484816

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Ann Rees

SACH LLIAIN A LLUDW!
Mae fy nghof yn pallu. Ymddiheuriadau i Lyn a Mike West – dylswn fod wedi eu croesawu i'r pentref yn y rhifyn diwethaf ond gwell hwyr na hwyrach. Mae'n hyfryd gweld y ddau wedi ymgartrefu'n syth ac yn hapus iawn ym Mharc Nant Celyn.

YN YR YSBYTY
Ein dymuniadau gorau i John Copley, Heol Iscoed, sydd yn yr ysbyty yn dilyn damwain gas. Mae'n dda gallu dweud ei fod yn edrych ac yn teimlo'n well tra'n gwybod bod misoedd anodd o'i flaen.

Hefyd, Julie Davies, Ffordd y Capel, (mam Cherie a Ryan oedd yn ddisgyblion yn Rhydfelen). Mae wedi cael triniaeth drom yn yr ysbyty.

Hyderwn bydd y ddau yn teimlo'n well o'r gofal maent yn ei dderbyn.

NEWID SWYDD
Llongyfarchiadau i Christopher Griffiths, Heol y Ffynnon ar ei ddyrchafiad i Bennaeth yr Adran Gyllid gyda'r Cyngor Menter a Hyfforddiant (TEC) yng Nghaerdydd.

LLWYDDIANT
Llongyfarchiadau i Barti'r Efail ar eu llwyddiant yn yr Ŵyl Gerdd Dant eleni.

CAPEL Y TABERNACL
Mae'r wythnosau nesaf yn mynd i fod yn llawn bwrlwm gydag ymarferion a phartion. Trefn yr oedfaon am y mis yw:
13 Rhagfyr – 10.45 y.b. Gwasanaeth Nadolig y Plant a pharti i ddilyn
20 Rhagfyr – 10.45 y.b. Gwasanaeth yng ngofal Teulu Twm
24 Rhagfyr – 11.00 y.h. Gwyl Nos yng ngofal yr aelodau a'u ffrindiau.
27 Rhagfyr gwasanaeth Teuluol ac Ysgol Sul

PENBLWYDD HAPUS, YR HEN GOES!

Roedd EIFION JONES wastad wedi mynnu na fyddai'n cael ei ddal gan ARFON HAINES DAVIES a chriw Penblwydd Hapus. Roedd yn sicr na fyddai'n cael ei dwyllo yn y math fodd.

Ond mae'n cyfaddef nad oedd wedi amau dim hyd nes i Arfon a'r criw camera gamu i'r stiwdio yng nghanolfan y BBC ym Mangor lle roedd Jonsi yn darlledu'n fyw ar Radio Cymru.

"Roeddwn i wastad wedi rhybuddio fy nheulu i beidio a chyd-weithredu pe byddai rhywun o'r rhaglen yn gofyn iddyn' nhw, er nad oeddwn i wedi meddwl o ddifri' y bydden nhw am wneud rhaglen amdana' i," meddai.

"Mae'n amlwg iddyn' nhw weithio'n galed i berswadio fy chwaer i fod yn rhan o'r peth. A doedd gen i ddim clem ei fod yn mynd i ddigwydd tan i mi weld Arfon yn dod trwy ddrws y stiwdio.

"Er, o feddwl yn ôl, mae'n debyg y dylwn i fod wedi sylwi ar ambell beth bach od fu'n digwydd yn y dyddiau o flaen fy mhenblwydd.

"Dwi'n cofio, y noson cynt, fy chwaer yn fy annog i wisgo crys y diwrnod canlynol yn hytrach na'r crys-T y byddaf yn ei wisgo ran amlaf pan fyddaf ar y radio. 'Roedd hi'n teimlo, meddai hi, y byddai'n beth braf i'w wneud am ei bod hi'n benblwydd arna' i. Ac yn rhyfedd ddigon, mi wnes i wrando, ac am unwaith roeddwn i'n gwisgo crys taclus pan ddaeth y criw camera i'r stiwdio."

Nid dyna'r unig adeg i gwmni teledu chwarae tric ar Jonsi 'chwaith oherwydd cafodd ei ddal gan Y Brodyr Bach y llynedd, pan fu'n holi'r dynwaredwr Emyr Roberts yn hytrach na'r gwleidyddion roedd o'n ei feddwl oedd ar ben arall y lein.

PENBLWYDD HAPUS
Nos Iau, Rhagfyr 17, 7.25pm

NOSWEITHIAU GWYLLT GYDA'R BANDIT

Rhaglen newydd i bobl ifanc ddwywaith yr wythnos ar S4C Digidol yw Bandit. Mae anarchiaeth ar yr awyr a gall unrhyw beth ddigwydd yn hwyr bob nos Fawrth a nos Iau wrth i Bandit ymladd ei ffordd i'r sgrin - dim ond ar S4C Digidol!

Mae Bandit yn addo torri tir newydd o ran teledu ieuenctid yng Nghymru, a gyda phump awr wedi'u neilltuo bob wythnos ar gyfer hwyl hwyrol, mae Bandit yn sicr o fod yn boblogaidd gyda'r ifanc - a'r ifanc eu hysbryd.

"Mewn ffordd, mae Bandit yn rhyw fath o `pirate radio' ar y teledu, rhaglen lle gall unrhywbeth ddigwydd - ac mae'n siwr o wneud! Mae e i gyd i wneud a chael hwyl a gwthio'r ffiniau gyda chymysgedd o chwaraeon, bandiau, cyfweliadau â'r ser, fideos cartref, cystadlaethau a llawer mwy," eglura cynhyrchydd y gyfres, Dafydd Felix Richards o gwmni teledu Boomerang ym Mae Caerdydd.

Y `pen bandit' yw neb llai na'r cyflwynydd gwallgof MATTHEW GLYN ac mae e'n edrych ymlaen yn eiddgar i gael dechrau ar y gwaith.

"Mae Bandit yn rhaglen berffaith i fi achos fe fydd yn ymwneud â'r pethau dwi'n eu mwynhau ffilmiau, gemau cyfrifiadurol, cerddoriaeth ac ati. Dwi'n teimlo hi'n fraint fawr i gael cyflwyno'r gyfres a dwi'n excited iawn am y peth, ond ychydig yn nerfus ar yr un pryd!"

Ond does dim rheswm i Math fod yn nerfus. Er ei fod ond yn 25 oed, mae eisoes yn wyneb cyfarwydd ar S4C ac yn hen law ar gyflwyno byw gyda'i brofiad yn cyd-gyflwyno i dot (a fydd nol ar y sgrin yn y flwyddyn newydd). Yn gynharach eleni, bu Matthew hefyd yn cyflwyno cyfres a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygiadau technolegol, Ti Di Gweld? - cyfres a roddodd gyflwyniad gwych iddo i fyd teledu digidol.

BANDIT
Bob nos Fawrth a Nos Iau, 9.OOpm: S4C Digidol

TUDALEN Y DYSGWYR

Yn y Cyngerdd Nadolig

Meinwen: Wi bob amser yn mwynhau cyngerdd Nadolig yr ysgol. Mae'n fy rhoi mewn hwyliau da ar gyfer y Nadolig.

Melanie: Ydy, wi'n gwybod beth wyt ti'n feddwl, er fy mod i wedi dechrau siopa Nadolig ers mis Hydref ! Wi wedi prynu'r anrhegion i gyd, a'r rhan fwyaf o'r bwyd, a wi wedi gwneud y coginio.

Meinwen: Beth wyt ti wedi'i goginio ?

Melanie: Chwe theisen Nadolig a chwe phwdin Nadolig, mins peis, rholiau selsig, gwellt caws, bisgedi Aberffraw . . .

Meinwen: I bwy mae'r rheina i gyd ? Dim i chi'ch tri '?

Melanie: Na, wi bob amser yn gwneud cacennau a phwdinau i mam, fy mam yng nghyfraith, fy chwaer yng nghyfraith, Mrs Jones drws nesaf a d'Ewyrth Bob .

Meinwen: Does neb ohonyn nhw'n gallu coginio ?

Melanie: Wel, wi bob amser wedi'i wneud e ers i fi briodi - mae fel rhyw fath o draddodiad. Mae fy mam yng nghyfraith yn dweud fod y deisen yn dal am flwyddyn iddi hi a . . .

Meinwen: Sh nawr - mae'r ail hanner yn dechrau ' Cei ddweud wrtha i rywbryd eto.

"Mae'r nos yn fwyn ym Methlehem
A chlud yw'r gwely gwair.
Mae'r llusern fach yn bwrw gwawl
Dros wyneb baban Mair"

Melanie: Wi'n dwli ar y garol yna. Honna yw fy ffefryn i wedi bod erioed .

Meinwen: Wi'n cofio'i chanu yng ngwasanaeth y Cristingl yn yr Eglwys. Sefyll yna, a'r golcuadau wedi eu diffodd a fflamau'r orenau yn golcuo'r tywyllwch, y gwêr poeth yn rhedeg dros fy llaw a chaledu, a minnau ofn gwneud ffws. Doeddwn i ddim yn sylwi ar weddill y gwasanaeth achos roeddwn i, a phob plentyn arall, yn brysur yn tynnu'r gwêr caled oddi ar ein dwylo.

Melanie: Roedd hynna'n hyfryd. Mae'r plant wedi gweithio'n galed eleni, yn dysgu eu rhannau a'u llinellau. Mae llawer o dalent yn yr ysgol.

Meinwen: Mrs Edmunds yr athrawes ddrama sy'n gyfrifol. Mae'n gallu cael y gorau allan o'r plant.

Melanie: Ydy. Mae Ben wrth ei fodd, ti'n gwybod Meinwen . Roedd e'n dda iawn fel gwr y llety.

Melanie: Oedd. Fe ddylai fod wedi cael bod yn Joseff, ond dyna fe, rhaid i bawb gael cyfle sbo. Fe fydd yn yr ysgol am sawl cyngerdd eto.

Meinwen: Mae'n ddiwrnod mawr yfory, cinio Nadolig i'r pensiynwyr. Wyt ti wedi cofio'r cracers ? Rhaid i ni gofio gofyn i'r ferch 'pryd ar glud' helpu i'w tynnu, gan fod y rhan fwyaf ohonyn nhw yn byw ar ben eu hunain.

Melanie: Ydyn. Maen nhw gen i, paid â phoeni.

Meinwen: Wela i ti yn y bore 'te.

Y diwrnod wedyn.

Meinwen: Os na wela i gig twrci byth eto fe fyddai yn fenyw hapus. Hanner cant o giniawau Nadolig, llond bws o wragedd ffermydd eisiau paneidiau i aros i'r gyrrwr drwsio'r bws, y cwsmeriaid rheolaidd, ac ar ben bob dim, y dyn llaeth yn hwyr.

Melanie: Am ddiwrnod! Paned o de Meinwen? O hyfryd,

Melanie: 0 leiaf 'roedd y pensiynwyr wedi mwynhau eu cinio.Mae tri ohonyn nhw wedi ffonio i ddiolch. Mae cinio traddodiadol yn mynd i lawr yn dda gyda'r bobl hŷn.

Meinwen: Ydy, twrci, tatws newydd, tatws rhost, stwffin,selsig, cig moch, grefi, saws ceirios y wern, pwdin Nadolig a saws brandi.

Melanie: A chracer Nadolig.

Meinwen: Wi'n credu mai ni sydd yn 'cracers'! Pan fydd diwrnod cinio'r pensiynwyr flwyddyn nesaf, fe gawn ni am y dydd. Cytuno?

Melanie: Cytuno Meinwen.

S4C

FFILM AM Y CLEFYD CUDD

Efallai fod yr arholiadau gradd drosodd a'r myfyrwyr wedi mynd adref, ond ym Mangor yr haf hwn mae'r bywyd colegol yn cael ei ail-greu ar gamera wrth i Ffilmiau Eryri baratoi ffilm newydd. Ac mae'r bobl ifanc yn honno yn wynebu treialon gwaeth nag arholiadau.

Stori am ferch ifanc sy'n dioddef o anorecsia yw Lois. Nid yw hynny'n amlwg o'r dechrau - fel y rhan fwyaf o ddioddefwyr, nid yw Lois, sy'n fyfyrwraig blwyddyn gyntaf, yn cydnabod bod y clefyd arni. Mae'n cuddio'r peth rhag ei dwy ffrind, sy'n cyd-letya â hi, rhag ei theulu a hyd yn oed rhag ei chariad. Ond o dipyn i beth datgelir ei bod yn anorecsig ac mae'r ffilm yn darlunio effaith hynny arni hi ac ar y bobl o'i chwmpas.

Awdur y sgript yw DEWI WYN WILLIAMS, ac fe'i hysgrifennodd yn wreiddiol ar ddechrau'r nawdegau a hynny fel drama ddogfen. Ond o ddrafft i ddrafft trodd yn fwy o ddrama ac yn fwy o stori garu, gyda chariad Lois, Gruff, a oedd ar y cyrion i ddechrau, yn dod yn gymeriad mwy canolog. Fodd bynnag, er mai cwbl ddychmygol yw'r stori, y cymhelliad i'w hysgrifennu oedd adnabyddiaeth bersonol Dewi o un dioddefydd ac mae wedi'i seilio ar ymchwil manwl.

"Mi wnes i siarad ag amryw o gleifion er ei bod hi'n anodd cael gafael ar rai oedd yn fodlon son am y peth. Mi siaradais i hefyd efo gweithwyr cymdeithasol a phobol ar yr ochr feddygol a seiciatryddol, a darllen lot o lyfrau," meddai Dewi, sydd erbyn hyn yn Olygydd Sgriptiau Adloniant Ysgafn S4C. Y ferch sy'n wynebu'r her o bortreadu Lois yw NIA ROBERTS o Aberhonddu, a welwyd yn ddiweddar yn y gyfres Y Palmant Aur ac sy'n chwarae un o'r ddwy brif ran yn Solomon a Gaenor, ffilm newydd S4C a Channel Four am gymuned Iddewig De Cymru. Y prif actorion eraill yw Ryland Teifi, Manon Eames, Aneirin Hughes, Bethan Ellis Owen, Helen Rosser Davies a Dyfrig Morris. Y cyfarwyddwr yw Eurwyn Williams.

Bydd Lois ar S4C adeg y Nadolig.

CYD PONTYPRIDD, TONYREFAIL A THREORCI

12/ 1/98 Cwis gyda Dr: Adrian Price. Clwb y Bont Pontypridd 8yh.
8/12/98 Cinio Nadolig yn O'Sullivans. Dim llawer o le bwciwch yn gynnar. Ffoniwch 01443 671577.
7/12/98 Parti Nadolig - Bwffe/Disgo/Gemau. Clwb y Bont Pontypridd, dechrau 8yg. 5/1/99 Cwis. 7:30 Clwb Rygbi Tonyrefail
21/1/99 Cwis. 8:00 Clwb y Bont, Pontypridd
2/2/99 Siaradydd Gwadd. 7:30 Clwb Rygbi Tonyrefail.
11/2/99 Noson Gemau Iaith. 8.00 Pontypridd:
2/3/99 Cinio codi-arian i CYD. Tonyrefail. Ffoniwch 671577.
25/3/99 Noson Lawen. Dewch i fwynhau. talent anhygoel y dysgwyr lleol. 8:00 Clwb y Bont Pontypridd.
6/4/99 Cwis blasu gwin. 7:30 Clwb Rygbi Tonyrefail.
29/4/99 Cwis. 8:00 Clwb y Bont Pontypridd
4/5/99 Cawl a Chan. 7:30 Clwb Rygbi Tonyrefail
20/5/99 Siaradydd gwadd. 8:00 Clwb y Bont Pontypridd.
1/6/99 Taith gerdded/Helfa Drysor. Tonyrefail. Ffoniwch 671577.
17/6/99 Cwis Cenedlaethol CYD. Rownd Lleol 1. Clwb y Bont Pontypridd
6/7/99 Twmpath a BBQ. CYD Tonyrefail. Ffoniwch 671517.
2/7/99 Noson CYD Parti Ponti. Pontypridd. (Grwp i'w gadarnhau)
22/7/99 Cyfarfod Blynyddol CYD Pontypridd. Dewch yn llu.
3/8/99 Noson Gemau. Clwb Rygbi Tonyrefail.

*MAE CYD TREORCI YN CWRDD AM 8 BOB NOS WENER YN Y STAG; TREORCI.

AM FWY O FANYLION FFONIWCH DANNY GREHAN AR 01443 671577

YN EISIAU CYMRY CYMRAEG I HELPU DYSGWYR

Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg ac yn fodlon rhoi ychydig o'ch amser i helpu dysgwyr y cylch?

Ydych chi'n fodlon sgwrsio gyda dysgwyr mewn awyrgylch anffurfiol yn stod y dydd neu'r nos ?

Ydych chi'n fodlon bod yn gyfaill i ddysgwyr drwy'r post?

Os ydych chi wedi ateb "ydw" i un o'r uchod yna ffoniwch Danny Grehan ar 01443 671577 am fwy o wybodaeth ar sut y gallwch chi fod yn cynorthwyo dysgwyr y cylch.

Mae CYD, y mudiad cenedlaethol sydd yn darparu cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg, angen cymorth siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae CYD a dysgwyr angen eich cymorth chi.

MYND Â'R IAITH I FYD BUSNES

O ganlyniad i'r cynydd yn y nifer o gwmnïau sydd eisiau cyngor a chymorth i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi apwyntio dau asiant i fynd â'i neges allan i'r byd busnes.

Yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau Defnyddio'r Gymraeg mewn Busnes, roedd y Bwrdd yn awyddus i achub ar y cyfle i greu partneriaethau newydd gyda chwmnïau sydd eisoes yn gwneud defnydd o'r Gymraeg yn ogystal â dwyn perswâd ar gwmnïau eraill i ddechrau defnyddio'r iaith. Yn dilyn proses tendro apwyntiwyd Francis Balsom Associates (FBA) a Newidiem i ymgymryd a gwahanol agweddau ar y gwaith.

Fe fydd FBA yn gweithredu saith prosiect fydd yn canolbwyntio ar farchnata'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y diwydiant bwyd ac arlwyo ac yn cynnig cyngor ar ddylunio pecynnau dwyieithog. Ar yr un pryd bydd Newidiem, adain fasnachol Menter a Busnes, yn gweithio gyda 30 o gwmnïau ledled Cymru er mwyn eu hannog a'u helpu i ddefnyddio'r Gymraeg.

Cystadlaethau Cyfansoddi Eisteddfod Genedlaethol Cymru Môn 1999

Semtecs, Blodyn Tatws a'r gerdd Rhyddid- elfennau o adran Llenyddiaeth Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr 1998 a gyda'r Eisteddfod honno wedi ein gadael, mae'n bryd troi ein golygon at Eisteddfod olaf y ddegawd a'r ganrif bresennol. Honno fydd yr un i'w chynnal yn ardal Llanbedrgoch ym Mon rhwng 31ain Gorffennaf ac Awst 7fed 1999.

Ychydig o wythnosau yn ôl roeddem yn troi y cloc ac eisoes mae'n dywyll amser te a'r nosweithiau oer a hir y gaeaf ar ein gwarthaf. Onid dyma'r adeg i droi at Restr Testunau Eisteddfod 1999 ac edrych o'r newydd ar y cystadlaethau cyfansoddi i gyd gan fod pob adran yn wir yn cynnig cystadlaethau gwaith cartref. Y mae llwyddiant yr Eisteddfod yn dibynnu ar ddenu nifer dda o gystadleuwyr i bob adran a byddem yn ddiolchgar iawn pe byddech yn barod i gystadlu. Gwyddom fod llawer yn ystyried nad yw ei gwaith yn ddigon da ar gyfer gŵyl genedlaethol ond yn aml iawn nid yw hyn yn wir. Mantais fawr cystadlu yw na ddadlennir eich enw oni bai eich bod yn deilwng ond ar yr un pryd cewch feirniadaeth gan feirniaid safonol. Os ydych eisoes yn gystadleuydd fe wyddoch o brofiad fod yr Eisteddfod yn ddigwyddiad llawer mwy diddorol o fod wedi cymryd rhan ynddi.

Dyddiad cau y rhanfwyaf o'r cystadlaethau cyfansoddi yw Ebrill 1af er bod rhai eithriadau. Dau o'r eithriadau hynny yw cystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen sef 4ydd o Ionawr 1999 a'r Fedal Ryddiaith ar y testun 'Pan ddaw yfory' ar 31 Ionawr 1999. yn awr felly yw'r amser i fynd ati i gyfansoddi.

HYWEL WYN EDWARDS
Trefnydd

Swyddfa'r Eisteddfod
27 Stryd Fawr, Llangefni,
Ynys Môn. LL77 7NA
Ffôn: 01248 724999

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Glenys Roberts

Dyweddïad
Llongyfarchiadau i Michelle Payne, Portreeve Close, Llantrisant a ddyweddïodd yn ystod mis Tachwedd. Pob dymuniad da.

Pen-blwydd hapus
Llongyfarchiadau hefyd i Dafydd Williams, Despenser Avenue, a ddathlodd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar 17 Tachwedd.

Gwella gobeithio!
Mae Gethin White, Forest Hills, Tonysguboriau, wedi treulio cyfnod byr yn yr ysbyty yn ddiweddar. A chafodd Laurence Hill-Tout ddod adref am gyfnod o'r Brifysgol yn Lerpwl i wella o salwch. Gobeithio bod y ddau ohonoch yn teimlo'n 'A1 at Lloyds' erbyn hyn, fel y byddai fy nhad yng nghyfraith yn arfer dweud! Dylwn fod wedi dymuno'n dda cyn hyn i Laurence, sydd wedi dechrau ar gwrs prifysgol yr hydref hwn.

Gan ein bod wedi esgeuluso gweithgareddau'r Ysgol Gymraeg braidd y tymor hwn, mae gweddill y newyddion y tro yma yn canolbwyntio ar hynny!

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant
Mae'r ysgol wedi croesawu sawl aelod newydd sbon o staff y tymor yma. Dechreuodd Jill Riggs o Don-teg yn ei swydd gyntaf fel athrawes, yn dysgu'r dosbarth meithrin. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn y dysgodd Mrs Riggs Gymraeg a hyfforddi fel athrawes ac mae hi wedi cael croeso mawr yn yr ysgol. A daeth Eira Barton atom o'r Athrofa yng Nghaerdydd, er mai o sir Fôn y daw yn wreiddiol. Mae hi'n dysgu'r flwyddyn gyntaf - mae hi bob amser yn braf cael croesawu rhywun o sir Fôn! Erbyn hyn mae nifer staff yr ysgol wedi cynyddu o saith i ddeg. Cafwyd arian gan y Swyddfa Gymreig i hollti un dosbarth mawr yn ddau. Daeth Catrin Mustafa o Bontypridd atom yn gynorthwyydd yn y dosbarth meithrin, ac Ann Phelps o'r Rhondda i helpu gyda'r dosbarth derbyn. Gadwodd Stephanie Williams i weithio fel cynorthwyydd dosbarth yn Ysgol y Mynydd Bychan, Caerdydd.

Un rheswm am y cynnydd yn nifer y staff yw bod gan yr ysgol bellach, ar ôl cryn frwydro, ddosbarth meithrin am y tro cyntaf o 23 o blant. Ac mae eu Cymraeg yn rhyfeddol yn barod, ar ôl tri mis yn yr ysgol! Ymgartrefodd y plant meithrin a derbyn newydd yn yr ysgol erbyn hyn.

Bu'r ysgol yn llawn bwrlwm gweithgarwch eto'r tymor yma. Bu'r côr yn canu i'r henoed mewn dwy ganolfan yn Nhonysguboriau. A daeth y grŵp Mega yma i ganu i'r plant, ar eu ffordd o'r gweithgareddau Plant mewn Angen yng Nghaerdydd, a rhoi awr cyfan o berfformiad - pawb wrth eu boddau. Ar y diwrnod Plant mewn Angen, daeth y plant i'r ysgol yn eu pyjamas a chysgu'n dawel trwy'r dydd. Wel, dim cweit trwy'r dydd. Cododd hyn £130, a chododd merched Blwyddyn 6 £80 arall trwy werthu cacennau. Bu'r plant yn gwneud addurniadau ac yn eu hongian yn y Bullring; roedd eisiau llonni tipyn ar y lle - mae'n siŵr bod yr hen ddoctor yn falch iawn.

Eleni cynhelir y Gwasanaeth Nadolig yng nghapel Tabor, a hynny am y tro cyntaf. Cynhelir Ffair Nadolig yr ysgol ar y 4ydd o Ragfyr. Eisoes bu'r Gymdeithas Rieni'n brysur yn codi arian mewn noson gwis a ddaeth â £200 i'r coffrau. Mae'r Gymdeithas hefyd wedi comisiynu artist lleol, David Williams i wneud llun pensil o'r ysgol ac mae'r rhain ar gael o'r ysgol ar ffurf cardiau. Pris cerdyn A3 yw £2. Cysylltwch â'r ysgol os hoffech archebu rhai i wneud anrhegion Nadolig, calendrau ac ati (237837). Ar y 4ydd o Ragfyr hefyd bydd un dosbarth yn ymweld â HTV i gymryd rhan yn y cwis Pendraphobia.

YSGOL HEOL Y CELYN

YMWELIADAU
Aeth blynyddoedd 5 a 6 i Techniquest yn ddiweddar ac fe fu chwe dosbarth yn ymweld â'r arddangosfa deinosoriaid yn y Ganolfan Hanesyddol.

NAID NODDEDIG
Ar ôl i'r plant neidio ar y castell bownsio, mae'r elw mor belled yn £1,100.

CYFRIFIADUR NEWYDD
Cyflwynodd Dr Kim Howells gyfrifiadur newydd i'r ysgol gan fod y plant wedi casglu digon o dalebau Tesco. Acth dau blentyn i'r siop i dderbyn y cyfrifiadur.

EFEILLIAID
Mae wyth pâr o efeilliaid yn yr ysgol, pump ohonynt yn yr adran dan bump, ac fe fydd y nifer yn codi y flwyddyn nesaf.

DIDDANU
Mae'r côr a'r dawnswyr wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn diddanu'r Rotariaid, myfyrwyr o dramor sydd ym Mhrifysgol Morgannwg ac yn y Ganolfan Hanesyddol ym Mhontypridd.

OPERATION CHRISTMAS CHILD
Daeth y plant a'u hen deganau a oedd mewn cyflwr da i'r ysgol a'u pacio mewn i focsus esgidiau fel y gellid eu hanfon i blant tlawd yn Ewrop.

ATHLETAU DAN DÔ
Enillodd timau'r ysgol yn erbyn pedair ysgol arall yn y gystadleuaeth ar Dachwedd 13eg ac fe fyddant yn awr yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf.

CANLYNIADAU RYGBI
Heol y Celyn 14 Ynysboeth 7
Heol y Celyn 40 Gwaunclyn 5
Heol y Celyn 15 Evan James 10

YSGOL GARTH OLWG

TÂN GWYLLT
Cyfle i ddiolch i bawb, plant, athrawon, rhieni a chyfeillion, am y gefnogaeth ardderchog i'r Noson Tân Gwyllt, a drefnwyd gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ar gae'r ysgol. Ni ddychmygwyd erioed, y byddai torf o bron i chwe chant wedi cefnogi.

NOFIO
Llongyfarchiadau i dîm nofio'r ysgol, ar eu hymdrechion yn y Gala Nofio sirol ar ddechrau Tachwedd, ac yn arbennig i Sara Tennant a fydd yn cynrychioli'r ysgol a'r Sir yn y Gala Nofio Genedlaethol ym mis Rhagfyr.

DATHLU'R ŴYL
Cyfle i gyfeirio at rai o'r achlysuron a fydd yn rhan o ddathliadau'r ŵyl.
4.12.98 Ffair Nadolig, 3.30yp yn y Neuadd
5.12.98 Taith Siopa i Gaerfaddon, eto wedi ei threfnu gan bwyllgor y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.
9.12.98 Gwasanaeth Nadolig yng nghapel Salem, Tonteg.
10.12.98 Ymeliad Rosfa a Plwmbo at holl blant ac oedolion! yr ysgol.
11.12.98 Cinio Nadolig
14.12.98 Ymweliad Siôn Corn a pharti i'r plant Meithrin, Derbyn a Chyfnod Allweddol 1.
15.12.98 Disgo Nadolig i blant Cyfnod Allweddol 2

DOSBARTH CYMRAEG I DDYSGWYR
Croeso a phaned gyda Mrs Lynette Jenkins bob bore dydd Mawrth, 9.30 - 11.30am, yn Llyfrgell yr ysgol.

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Helen Jones

GWELLHAD BUAN
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Julie Medd, Heol yr Orsaf, Pentre'r Eglwys ar ôl iddi dderbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

YSGOL FEITHRIN PENTRE'R EGLWYS
Bydd ein cinio Nadolig yn y Farmer's Arms ar Nos Fawrth yr 8fed o Ragfyr. Croeso i bawb, Blaendal i Tina (208237) mor fuan a phosib os gwelwch yn dda.

CYFRIFIADURON NEWYDD A CHYN-GORFFORAETHOL

PRIS ISEL



Yn ddelfrydol ar gyfer:
Y Cartref, Busnes, Ysgolion a Myfyrwyr Coleg

Perffaith fel Anrheg Nadolig

Prisiau (yn cynnwys bysellfwrdd, llygoden a monitor lliw):

Cyfrifiadur Prosesydd 233MMX gyda 32megabyte RAM a 2.1gigabyte disg – £350 +TAW

Compaq Pentium 100 gyda 32 megabyte RAM a 1.0 gigabyte disg – £230+TAW

Compaq Pentium 60 gyda 16 megabte RAM a 300Mbyte disg – £200 +TAW

IBM 80486 DX2/66 cyfrifiadur gyda 16megabyte RAM a 500Mb disg – £150 +TAW

Mae'r holl gyfrifiaduron yn rhedeg Windows 95
Gellir gosod CD Rom am £40 + TAW.

***Cysylltwch â* Eric Willis 01222 890770**
Llwyn y Pennau, Groesfaen, Pontyrclun.

NADOLIG Y PLANT



Ymhle fydd y Fari Lwyd dros y Nadolig?

Croesair Nadolig

	1 ll	2					
3		ng				4	
	5			6			
	7		8		9		
10				11			
			12				
13		th					

AR DRAWS

1. Nadolig ___
3. Mair_ Joseff
5. Rwy'n hoffi cael __ yn fy hosan.
9. __ Sindy.
10. _ i feic os gwelwch yn dda?
12. Mae'r anrhegion yn yr __.
13. Mae'r doethion a'r bugeiliaid _ y preseb.

I LAWR

2. Rwy'n sefyll yn uchel ar y goeden.
4. Rydyn ni'n canu __ amser Nadolig.
6. Mae Siôn Corn __ y tô.
7. Mam Iesu.
8. Mae Siôn Corn yn dod _ Wlad yr Iâ.
11. Mae Siôn Corn yn gwisgo _ goch.

Lliwiwch y gacen